Chweched Dosbarth Dyffryn Taf

'Llwybr Dysgu i chi!'

Cynnwys

	Rhif Tudalen
Cyflwyniad – Neges oddi wrth y Pennaeth Ysgol	1
Amgylchedd Dysgu Dyffryn Taf	2
Cychwyn ar Lwybr Dysgu Newydd	2
Cynllunio eich Llwybr Dysgu	3/4
Dewis y Llwybr a'r Opsiynau Cywir	4
Enghreifftiau o Lwybrau Dysgu	5
Bagloriaeth Cymru	6/7
Bywyd yn Ysgol Dyffryn Taf – Cymuned Gefnogol	8
Beth sy'n gwneud Dyffryn Taf mor arbennig?	8
Safonau a Disgwyliadau	8
Canlyniadau TGAU	8
Neges oddi wrth Fyfyrwyr y Chweched Dosbarth	9

Gwybodaeth am Opsiynau

Addysg Gorfforol	10
Astudiaethau Crefyddol	11
Bioleg	12
Busnes Cymhwysol*	13
Celf a Dylunio	14
Cemeg	15
Cerddoriaeth	16
Cyfrifiadureg	17
Cymraeg Iaith Gyntaf	18
Cymraeg Ail Iaith	19
Daearyddiaeth	20
Drama ac Astudiaethau Theatr	21
Dylunio a Thechnoleg - Bwyd	22
Dylunio a Thechnoleg – Cynllunio Cynnyrch	23
Ffiseg	24
Ffrangeg/Almaeneg	25
Hanes	26
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymhwysol*	27
Llenyddiaeth Saesneg	28
Mathemateg	29
Seicoleg	30
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	31
Y Drwydded Ewropeaidd Mewn Defnyddio Cyfrifiaduron (ECDL) **(Cymhwyster sgiliau, nid Lefel UG/U)**	32
BTEC Amaethyddiaeth	33
BTEC Chwaraeon	34
BTEC Lletygarwch	35
BTEC Technoleg Cerdd	36
CGC Therapi Harddwch	37
CGC Trin Gwallt/Gwaith Barbwr	38

Dyffryn Taf

Cyflwyniad – Neges oddi wrth y Pennaeth Ysgol

Mae Dyffryn Taf yn croesawu myfyrwyr i'r Chweched Dosbarth i barhau â'u dysgu a'u datblygiad fel pobl ifanc. Rydym yn cynnig cwricwlwm amrywiol a heriol. Mae cymuned gefnogol yr ysgol yn rhoi cyfle ardderchog i fyfyrwyr Blwyddyn 11 symud ymlaen, a chyfleoedd newydd i fyfyrwyr o sefydliadau dysgu eraill.

Safbwynt Myfyriwr:
'Rydw i wedi bod yn dysgu mewn ysgolion am o leiaf 11 mlynedd, pam y dylwn i ddewis parhau?
Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ennill cymwysterau Pellach ac Uwch; mae Addysg Bellach yn rhoi sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau i chi hyd at Lefel A (neu gymhwyster cyfatebol); bydd Addysg Uwch yn rhoi gradd neu gymhwyster tebyg i chi.

Mewn termau ariannol yn unig, mae ymchwil yn dangos bod graddedigion yn ennill tua £400,000 yn fwy yn ystod eu bywydau na myfyrwyr tebyg sydd ddim yn cael gradd. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael swyddi diddorol a heriol.

Mae ffigurau'r Llywodraeth yn awgrymu bod bron 70% o swyddi yn gofyn am hyfforddiant neu addysg sy'n cyfateb i ddau lefel A neu well. Eu targed yw bod dros 50% o bobl ifanc yn cyrraedd y lefel hon. Yn ôl y rhagolygon presennol, bydd 60% o'n pobl ifanc un ar bymtheg oed presennol yn mynd i Addysg Uwch rywbryd yn ystod eu bywyd. Os nad ydych wedi cyflawni'r lefelau uwch hyn, mae'n bosib na fyddwch yn gallu cystadlu'n effeithiol am y swyddi gorau. Wrth gwrs, mae swyddi eraill ar gael a dydy Addysg Bellach ddim yn hanfodol ond erbyn hyn, ar y cyfan, mae swyddi yn gofyn am sgiliau uwch, ac mae'r farchnad swyddi yn mynd yn fwy cystadleuol.

"Beth mae Dyffryn Taf yn gallu ei gynnig?"
Yn Nyffryn Taf rydym yn cynnig cymaint mwy. Rydyn ni am i'n myfyrwyr Chweched Dosbarth adael nid yn unig â chymwysterau da (ac maen nhw yn gwneud hynny) ond hefyd rydyn ni am iddyn nhw fwynhau eu hunain, gael eu herio, a datblygu'r math o sgiliau a fydd yn hanfodol iddynt yn y dyfodol. Yn y llyfryn mae rhestr o rai o'r pethau ychwanegol y gallwch chi eu gwneud; fyddwch chi ddim yn gallu gwneud pob un ohonyn nhw wrth gwrs, ond rydyn ni'n disgwyl i bob un fynd ati i ehangu eu profiadau a chyfrannu i'w cymuned.

Pob lwc gyda'ch Arholiadau a'ch Asesiadau. Rydw i'n edrych ymlaen i gydweithio â chi dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Mr G Smith
Pennaeth yr Ysgol Uwch

Amgylchedd Dysgu Dyffryn Taf

Mae'r cyfleusterau yn Ysgol Dyffryn Taf yn sicrhau mai hon yw un o'r ysgolion hyfrytaf a gorau o ran cyfarpar yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Llyfrgell eang, y Stiwdio Ddrama a'r cyfleusterau cyfrifiadurol i gyd yn gymorth i fyfyrwyr astudio mewn amgylchfyd sydd eisoes yn gyfarwydd iddynt.

Eisoes enillodd yr Ysgol enw da am ragoriaeth academaidd, gydag athrawon Dyffryn Taf yn ymroddedig i roi cefnogaeth i'ch mab a'ch merch i gyrraedd eu potensial. Bob blwyddyn derbynnir canran uchel o'n Chweched Dosbarth i Brifysgolion, yn cynnwys Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r newid o Gyfnod Allweddol 4 i Gyfnod Allweddol 5 yn newid mawr. Yn Nyffryn Taf mae'r newid hwn yn haws gan fod y staff a'r myfyrwyr eisoes yn adnabod ei gilydd yn dda. Bydd perthynas agosach, aeddfetach, yn datblygu rhwng myfyrwyr y Chweched Dosbarth a'u hathrawon sy'n rhoi pob cefnogaeth i'r myfyrwyr yn eu hastudiaethau. Arolygir cynnydd y myfyrwyr yn rheolaidd a disgwyliwn iddynt ddatblygu yn fyfyrwyr brwdfrydig a hunan-ddisgybledig; rhinweddau fydd yn bwysig iawn yn nes ymlaen mewn bywyd.

Cychwyn ar Lwybr Dysgu Newydd

Mae'r Chweched Dosbarth yn ddechrau newydd ac yn gyfle newydd. Fyddwch chi ddim yn cael eich labelu yn ôl eich perfformiad blaenorol. Cewch groeso i'r Chweched Dosbarth os oes gennych y cymwysterau angenrheidiol ac os ydych yn fodlon ac yn awyddus i gydweithio â'ch tiwtoriaid i gael y canlyniadau gorau posibl i chi eich hunan. Mae'r Chweched Dosbarth yn rhywbeth hollol newydd; rydyn ni'n credu mewn trin ein myfyrwyr Chweched Dosbarth fel oedolion ifanc ac rydyn ni'n disgwyl iddyn nhw ymddwyn mewn modd aeddfed a chyfrifol. Manteisiwch ar y cyfle hwn i gynllunio eich dyfodol yn ofalus.

Mae Dyffryn Taf yn cynnig cwricwlwm amrywiol sy'n caniatáu i chi ddatblygu'r llwybr dysgu cywir i ateb eich anghenion. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi mynediad agored i'r Chweched Dosbarth ond mae mynediad i rai cyrsiau yn gofyn am o leiaf bedwar gradd C neu well yn yr arholiadau TGAU gyda Phroffil Graddau rhesymol, yn cynnwys TGAU gradd C o bosib mewn Saesneg a Mathemateg.

Mae rhai amodau penodol hefyd ar gyfer pynciau arbennig; ar y cyfan, disgwylir i fyfyrwyr gael TGAU gradd C yn y pwnc hwnnw. Mae rhai pynciau does dim rhaid i chi fod wedi eu hastudio ar gyfer TGAU; sef yn benodol TGCh, Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, DT Bwyd, Seicoleg ac Astudiaethau Crefyddol, Chwaraeon, Amaethyddiaeth a Therapi Harddwch/Trin Gwallt.

Cynllunio eich Llwybr Dysgu

Mae Dyffryn Taf yn cynnig ystod eang o gymwysterau a phrofiadau i ddatblygu llwybr dysgu unigol.

Cymwysterau:

Mae cyrsiau Lefel UG ar safon is na lefel A, ond uwch na TGAU. Fel rheol bydd y cyrsiau hyn yn parhau am un flwyddyn, gydag arholiadau ar ddiwedd Blwyddyn 12, wedi'u graddio A-E.

Bydd cyrsiau Lefel A yn digwydd ym Mlwyddyn 13. Byddant yn dilyn ymlaen o lwyddiant ar lefel UG, gydag arholiadau ar ddiwedd Blwyddyn 13, wedi'u graddio A*-E

Bydd cyrsiau BTEC yn digwydd ym mlwyddyn 12, gan gynnig llwybr galwedigaethol i fyfyrwyr tuag at ddysgu a datblygu sgiliau. Mae'n bosib y bydd y cyrsiau hyn yn cynnwys addysgu a dysgu oddi ar y safle gyda phrofiad gwaith perthnasol. Cynigir y cyrsiau hyn ar Lefel 2 Diploma Cyntaf a Lefel 3 Cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn dangos sut maen nhw'n cymharu:

Lefel 3 BTEC Cenedlaethol

Lefel 3 BTEC Diploma	2 TAG Uwch – Lefel A
Lefel 3 BTEC Diploma Atodol	1 TAG Uwch – Lefel A
Lefel 3 BTEC Tystysgrif	1 TAG Uwch – Lefel UG

BTEC Lefel 2 Cyntaf

Lefel 2 Cyntaf Diploma	4 TGAU (A*-C)
Lefel 2 Tystysgrif Estynedig	2 TGAU(A*-C)
Lefel 2 Tystysgrif	1 TGAU (A*-C)

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	1 TAG Uwch – Lefel A (120 pwynt UCAS)

Profiadau:

Cyfoethogi eich dysgu gyda gweithgareddau allgyrsiol	Ysgwyddo cyfrifoldeb ac ychwanegu i'r gymuned
• Cynllun Peirianneg • Cynhyrchiad Blynyddol • Gwobr Dug Caeredin • Siarad Cyhoeddus • Siaradwyr Gwâdd • Chwaraeon • Swît Ffitrwydd • Perfformiad Cerddorol • Clybiau Ysgol	• Swyddog • Capteiniaid Tai • Cynllun Darllen • Pwyllgor Elusen • Cyngor yr Ysgol • Pwyllgor Chweched Dosbarth • Addysg Cyfoedion • Arweiniad a Hyfforddiant Chwaraeon • Gwaith Gwirfoddol

Gall myfyrwyr ddewis pynciau o'r tabl isod er mwyn cynllunio llwybrau addas.

Lefelau UG/U		Cyrsiau BTEC (Lefelau 2 a 3)
• Addysg Gorfforol • Astudiaethau Busnes* • Astudiaethau Crefyddol • Bioleg • Celf a Dylunio • Cemeg • Cerddoriaeth • Cyfrifiadureg • Cymraeg Iaith Gyntaf # • Cymraeg Ail Iaith # • Daearyddiaeth • Drama ac Astudiaethau Theatr # • Dylunio a Thechnoleg – Bwyd • Dylunio a Thechnoleg – Cynllunio Cynnyrch	• ECDL (cymhwyster sgiliau, nid lefel UG/A) • Ffiseg • Ffrangeg # • Almaeneg • Hanes • Iechyd a Gofal Cymdeithasol* • Llenyddiaeth Saesneg • Mathemateg • Seicoleg • Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	• Amaethyddiaeth L2 *O* • Therapi Harddwch/ Trin Gwallt L2 *O* • Technoleg Cerdd L3 *Q* • Lletygarwch L3 # • Chwaraeon L3

- Asesir cyrsiau cymhwysol yn bennaf trwy waith cwrs gydag un uned fechan a arholir.

Mae cyrsiau cydweithredol wedi esblygu ar addysgu gwersi ar y cyd yn Nyffryn Taf ac yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (gall myfyrwyr ddewis **un** yn unig).

Q Cwrs y gall myfyrwyr Dyffryn Taf ei astudio yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth.

O *Darpariaeth oddi ar y safle.*

Dewis y Llwybr a'r Opsiynau Cywir

Mae'n bwysig eich bod yn dewis y cwrs mwyaf addas ar gyfer eich anghenion a'ch galluoedd. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, fe'ch anogir i siarad â'ch athrawon pwnc, eich athrawon dosbarth, myfyrwyr y chweched dosbarth, cynghorwyr gyrfa a darparwyr cyrsiau.

Gwefannau defnyddiol:

‹http://www.ucas.ac.uk/students/coursesearch/2011searcheu/› - edrychwch ar y proffil mynediad i wirio pa arholiadau TGAU a Lefel A a ddisgwylir

http://www.careerswales.com/16to19/

Enghreifftiau o Lwybrau Dysgu

Portffolio o raddau TGAU Blwyddyn 11

Llwybr A

Mae myfyriwr yn dewis pedwar pwnc lefel UA o'r pyllau opsiwn

Llwybr C

Mae myfyriwr yn dewis un cwrs BTEC ynghyd ag un pwnc Lefel UA o'r pyllau opsiwn

Llwybr B

Dewis un cwrs BTEC o'r pwll opsiynau.
O leiaf un diwrnod o Brofiad Gwaith bob wythnos.

+ + +

Bagloriaeth Cymru
(120 UCAS)
ABCh
Addysg Gysylltiedig â Gwaith
Cyfranogiad Cymunedol
Menter Tîm
Ymchwil Unigol
Uned Iaith
Cymru Ewrop Y Byd
Sgiliau Allweddol

Symud ymlaen i:

Addysg Uwch mewn Prifysgol, Addysg Bellach mewn Coleg, Cyflogaeth a Phrentisiaeth

Ei nod yw adeiladu ar y ***profiadau*** amrywiol a'r cwricwlwm o fewn y chweched dosbarth presennol. Bydd myfyrwyr yn ennill credyd am eu cyfraniadau i fywyd yr ysgol ac i'r gymuned ehangach. Bydd yn datblygu eu ***sgiliau hanfodol*** ac yn eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.



Strwythur CBC

Lefel	Lefel Dysgu	Elfen Graidd	Elfen Opsiynol
Diploma Uwch Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	Safon Lefel 'A' TAG neu Lefel 3 NVQ	Tystysgrif Graidd Lefel Uwch (3) • Tri Sgil Allweddol ar lefel 3; rhaid i un ohonynt fod yn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif neu TGCh, ynghyd â'r tri Sgil Allweddol arall ar lefel 2. • Gweithio gyda Chyflogwr, gweithgaredd Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol. • Ymchwiliad Unigol ar lefel 3. • Gofynion cwricwlwm penodedig.	• Dwy radd A-E ar Lefel A • neu NVQ Lefel 3 • neu Dystysgrif Genedlaethol BTEC ar lefel llwyddo • Neu Gymhwyster Prif Ddysgu ar Lefel 3 + Cymhwyster Prosiect Estynedig a chymhwyster ychwanegol ar Lefel 3 • neu gymhwyster cyfatebol

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**'n gymhwyster trosfwaol wedi'i seilio ar gwricwlwm Craidd a ddilynir gan bob ymgeisydd ac Opsiynau a ddewisir i fodloni anghenion unigol. Mae'n cynnig model a strwythur cwricwlwm sy'n cynnig rhaglenni dysgu sy'n berthnasol, yn hygyrch ac y gellir eu cyflwyno i ymgeiswyr mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd dysgu.

Nodau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw:

- ehangu cyfranogiad, hyrwyddo mynediad ac annog cwblhau mewn addysg a hyfforddiant;
- hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar;
- hyrwyddo cydraddoldeb parch rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academaidd a mabwysiadu agwedd alwedigaethol at ddysgu;
- galluogi ymgeiswyr o bob gallu i fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau cwricwlwm i ymgeiswyr yng Nghymru;
- hyrwyddo 'dysgu trwy wneud' a defnyddio technolegau newydd i wneud dysgu'n fwy effeithiol;
- darparu cefnogaeth ac arweiniad strwythuredig trwy raglen o diwtora a mentora.

Elfennau'r Craidd yw:

Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB), y mae'r ffocws ar faterion gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol gan eu gosod yng nghyd-destun Cymru, Ewrop (gan gynnwys y D.U.) a'r byd. Ceir hefyd Fodiwl Iaith.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), sy'n cynnwys datblygu perthnasoedd, datblygiad cynaliadwy ac a fydd yn hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol ac iechyd da. Mae elfen cyfranogi yn y gymuned.

Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) sy'n cyfoethogi dealltwriaeth o fyd gwaith, pwysigrwydd menter a mentergarwch.

Yr Ymchwiliad Unigol sy'n rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu eu sgiliau ymholi, meddwl creadigol, rhesymu, prosesu gwybodaeth, cyflwyno a gwerthuso trwy ymchwilio i faes diddordeb yn fanwl.

Sgiliau Allweddol/Sgiliau Hanfodol Cymru a gaiff eu plannu yn rhaglen astudio pob ymgeisydd naill ai yn y Craidd a/neu'r Opsiynau.

Asesu

Asesir gwaith craidd trwy gyfrwng dyddiadur myfyriwr a phortffolio o aseiniadau sgiliau.

Gofynion Mynediad

Cyn cychwyn, dylai ymgeiswyr sy'n dechrau ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru fod wedi cyrraedd lefel gyffredinol o addysg sy'n gydnaws â'r rhaglenni astudio y disgwylir iddynt eu dilyn yn yr Opsiynau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Derbynnir gan fwy a mwy o brifysgolion (120 pwynt UCAS)

Prifysgol Caerdydd	Mae Prifysgol Caerdydd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n cynnig addysg eang ac amrywiaeth o brofiadau dysgu
Prifysgol Caergrawnt	Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n cymryd y Diploma Uwch ym Magloriaeth Cymru. Disgwylir i ymgeiswyr fod wedi astudio tri phwnc hyd at Lefel A fel rhan o'u cymhwyster.

Bywyd yn Ysgol Dyffryn Taf – Cymuned Gefnogol

Yn Nyffryn Taf rydyn ni'n ymwneud nid yn unig â'ch cynnydd academaidd a'ch canlyniadau arholiad, rydyn ni hefyd eisiau eich helpu i baratoi ar gyfer Addysg Uwch, gyrfâu a bywyd fel oedolyn. Bydd cyrsiau ac arweiniad yn gwella eich sgiliau allweddol, yn rhoi'r cyfle i chi wneud cyfraniad positif i gymuned yr ysgol, y gymuned leol neu'r gymuned fyd-eang a gwella eich dealltwriaeth o faterion economaidd, moesegol, moesol a chrefyddol.

Cyfweliadau Gyrfâu, Profiad Gwaith, Cynadleddau (gan gynnwys Addysg Uwch, Gyrfâu a Going It Alone), paratoi CV, Ffug Gyfweliadau, cefnogaeth gan eich tiwtor, cyfleusterau CD Rom a'r Rhyngrwyd, ymweliadau Diwrnodau Agored a rhaglen Sgiliau Allweddol sydd wedi'u llunio i'ch paratoi ar gyfer dyfodol llwyddiannus - mae'r rhain i gyd yn rhan o'r pecyn a ddarperir gan yr ysgol.

Beth sy'n gwneud Dyffryn Taf mor Arbennig?

- Yn Nyffryn Taf ymhyfrydwn yn y gynhaliaeth a roddwn i'n myfyrwyr. Mae 90% o'n myfyrwyr Lefel A yn cwblhau eu cyrsiau, mae'r mwyafrif o'r rhain yn mynd i'r Brifysgol. Cymharwch hyn â sefydliadau eraill!

- Cynhaliaeth fugeiliol a chwblhau cyrsiau, cwricwlwm academaidd a dewis eang, rhaglen allgyrsiol gyfoethog, cyfleoedd i wella sgiliau a dinasyddiaeth.

Safonau a Disgwyliadau

Gallwch ddisgwyl addysg o safon uchel a chefnogaeth gan Ysgol Dyffryn Taf. Yr ydym ninnau'n disgwyl llawer oddi wrth ein myfyrwyr Chweched Dosbarth. Credwn ei bod yn hanfodol i chi ddechrau cymryd cyfrifoldeb amdanoch eich hunan, eich gwaith, eich cymuned a'ch dyfodol.

Canlyniadau TGAU

Ar ddiwrnod y canlyniadau ac wedi hynny, bydd staff yn yr ysgol i ddosbarthu'r canlyniadau ac i gyfweld disgyblion ynglŷn â'u dewisiadau. Y mae'n hanfodol bwysig eich bod yn manteisio ar y cyfle hwn. Bydd hi'n bosibl ail sefyll TGAU Mathemateg a Saesneg ym mlwyddyn 12 a 13 er mwyn gwella sgôr TGAU yn dilyn blwyddyn 11.

Chi biau'r dyfodol – byddwch yn barod!

Neges oddi wrth Fyfyrwyr y Chweched Dosbarth

Gyda diwedd Blwyddyn 11 ar y gorwel fe fyddwch chi'n gofyn "Beth ydw i'n mynd i'w wneud nesaf?" Mae hwn yn amser cyffrous dros ben ac mae nifer o opsiynau ar agor i chi; mae'n bosib y bydd rhai myfyrwyr yn penderfynu eu bod nhw am ddechrau gweithio, tra bo eraill am adael i fynd i'r coleg i ddechrau ar gyrsiau amrywiol. Ond mae'n bosib y bydd llawer am aros mewn amgylchedd cyfarwydd ac ymuno â Chweched Dosbarth Dyffryn Taf, lle gallwch ennill eich cymwysterau nesaf, arholiadau Lefel A. Mae'r cymwysterau hyn yn rhan hanfodol ar gyfer Addysg Uwch neu gyflogaeth llawn amser ac ehangu eich dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Ynghyd â'ch astudiaethau lefel A, bydd digonedd o gyfle i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau allgyrsiol. Mae Cynhyrchiad Blynyddol yr Ysgol bob amser yn llwyddiant mawr ac yn brofiad pleserus dros ben i bob un sy'n cymryd rhan ynddo. Mae Cynllun Gwobr Dug Caeredin yn parhau i mewn i'r Chweched Dosbarth gyda theithiau Arian yn cerdded yn Ardal y Peak a chanŵio i lawr yr afon Gwy ar gyfer y wobr Aur. Mae'r CABC (Cynllun Addysg Beirianneg Cymru) yn rhoi'r cyfle i beirianwyr y dyfodol ennill gwybodaeth am y diwydiant a phrofiad gyda pheirianwyr. Gallwch hefyd wirfoddoli i fod yn rhan o'r Cynllun Darllen, y Pwyllgor Elusennau ac ym Mlwyddyn 13, y system Swyddogion. Mae pob un o'r cyfleoedd hyn yn helpu i wella eich CV ac i ddatblygu sgiliau y bydd eu hangen mewn Addysg Uwch neu mewn gwaith cyflogedig.

"I Fyny Fo'r Nod" yw arwyddair Dyffryn Taf ac mae'n annog myfyrwyr i anelu am y safonau uchaf. Mae'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr, boed hynny'n academaidd, ar faes chwarae, ar lwyfan neu mewn prosiect peirianneg newydd, yn rhoi'r cyfle gorau iddynt lwyddo ym mhob agwedd o'u bywyd ysgol. Mae Chweched Dosbarth Dyffryn Taf yn rhoi gwybodaeth a chyfleoedd unigryw i'w fyfyrwyr a fydd yn hybu eu personoliaeth ac yn ehangu eu gorwelion. Mae'r Chweched Dosbarth yn garreg gamu o'r lle y bydd llawer o lwybrau i'w dewis. Pa bynnag lwybr y byddwch yn ei ddewis, mae'n bwysig eich bod yn mwynhau ac yn gosod her i chi eich hun.

Celia Noblett a Tom Allan
Prif Ferch a Phrif Fachgen 2010/2011

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r cwrs Addysg Gorfforol Safon U yn ddilyniant naturiol i'r disgyblion hynny sydd wedi llwyddo yn y cwrs Addysg Gorfforol TGAU. Fe'i cydnabyddir gan brifysgolion yn cynnwys Rhydychen a Chaergrawnt. Bydd llwyddiant yn yr arholiad Safon U yn sicrhau mynediad i fyd Addysg Uwch.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG

Uned 1 **Cyflwyniad i Addysg Gorfforol – 60% (UG) 30% (U) – papur arholiad ysgrifenedig 2 awr.**

- Anatomeg a Ffisioleg (Adran A)
- Caffaeliad Sgiliau Symud (Adran B)
- Astudiaethau Diwylliannol-Gymdeithasol yn ymwneud â chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (Adran C)

Uned 2 **Caffael, datblygu a gwerthuso sgiliau ymarferol mewn Addysg Gorfforol – 40% (UG) 20% (U). Asesir yn fewnol a'i safoni'n allanol. Bydd disgyblion yn dewis DAU weithgaredd ymarferol o DDAU wahanol broffil gweithgaredd o'r pynciau canlynol – Perfformio, Hyfforddi ac Arwain, Gweinyddu.**

Proffiliau Gweithgaredd

1. gweithgareddau athletaidd
2. gweithgareddau ymladd
3. gweithgareddau dawns
4. gweithgareddau gemau rhwyd/wal
5. gweithgareddau gemau taro/maesu
6. gweithgareddau gemau ymosod
7. gweithgareddau gemau targed
8. gweithgareddau awyr agored ac anturus
9. gweithgareddau gymnasteg
10. gweithgareddau nofio
11. gweithgareddau ymarfer diogel ac effeithiol

U

Uned 1 **Egwyddorion a chysyniadau ar draws gwahanol feysydd o Addysg Gorfforol 35% (papur ysgrifenedig 2½ awr)**

Opsiwn Diwylliannol-Gymdeithasol

- Astudiaethau Cymharol

Opsiynau Gwyddonol

- Seicoleg Chwaraeon
  Ymarfer a Ffisioleg Chwaraeon

Uned 2 **Pwysigrwydd perfformiad effeithiol a gwerthusiad beirniadol o weithgareddau ymarferol mewn Addysg Gorfforol 15% (Asesir yn fewnol a safonir yn allanol).**
Asesir disgyblion mewn **UN** gweithgaredd ymarferol o UG fel yr uchod.

Sgiliau Allweddol

Mae'r maes llafur yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau allweddol Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, Technoleg Gwybodaeth, Gweithio gydag Eraill, Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun a Datrys Problemau ar Lefel 2 a/neu 3.

Gofynion Mynediad

Hoffem gael gradd B mewn Addysg Gorfforol TGAU, er nad yw'n angenrheidiol. Mae Addysg Gorfforol yn cysylltu'n dda iawn â Bioleg.

Gwybodaeth Ychwanegol

Erbyn hyn, y mae'n hanfodol ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno astudio Rheolaeth Hamdden, Addysg Adloniadol neu, yn wir, Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth neu gyrsiau Addysgu Mewn Colegau, Colegau Polytechnig neu Brifysgol. Posibiliadau eraill yw Ffisiotherapi a Meddygaeth Sbort.

Gofynnir am ymrwymiad cadarn ar gyfer yr elfen ymarferol gan fod rhaid i'r myfyriwr gwblhau'r elfen hon yn ei amser ei hun.

Gwybodaeth Gyffredinol

Y mae Astudiaethau Crefyddol yn faes astudiaeth gwerth chweil sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer ystod eang o yrfâu a chyrsiau gradd a'u helpu i dyfu'n oedolion hynaws a goddefgar. Bu dyn dan gyfaredd crefydd erioed. Yr ydym oll am wneud rhyw synnwyr o'n bywydau a'n profiadau dynol. Rhaid i ni ddeall y byd yr ydym yn byw ynddo a darganfod pwrpas i'n bywyd. Dyma faes astudiaeth sy'n gwneud cyfraniad hanfodol pwysig i'n datblygiad personol a chymdeithasol.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG - Bydd ymgeiswyr yn astudio unedau mewn Moeseg a Hindŵaeth. Bydd rhaid iddynt ateb dau gwestiwn ar bob papur allan o ddewis o bedwar. Hyd bob papur arholiad yw 1¼ awr.

U – Bydd ymgeiswyr yn astudio unedau mewn Moeseg, a Chrefydd a Phrofiad Dynol. Yn yr arholiad Moeseg, mae gan ddisgyblion 1¾ awr i ateb dau gwestiwn allan o ddewis o bedwar. Thema'r cwrs Crefydd a Phrofiad Dynol yw Bywyd, Marwolaeth, a Bywyd ar ôl Marwolaeth. Yn yr uned derfynol, bydd y maes penodol sydd i'w astudio yn cael ei ryddhau gan y Bwrdd Arholi ym mis Ionawr. Bydd disgyblion yn ateb dau gwestiwn mewn 1¾ awr.

Sgiliau Allweddol

Bydd astudio Astudiaethau Crefyddol yn helpu'r myfyrwyr i ddatblygu sgiliau mynegiant, yn ogystal â gwella sgiliau iaith. Bydd cyfle i'r myfyrwyr drafod materion yn amrywio o bynciau Crefyddol/Athronyddol i bynciau Moesegol. Byddwn yn annog myfyrwyr i ddefnyddio'u sgiliau TG ar gyfer gwaith ymchwil.

Gofynion Mynediad

Nid oes rhaid i fyfyriwr astudio Astudiaethau Crefyddol hyd at TGAU er mwyn dilyn cwrs Safon U mewn Astudiaethau Crefyddol. Barn yr Adran yw bod unrhyw fyfyriwr yn addas os yw'n dymuno ennill dealltwriaeth o grefydd a'i le a'i arwyddocâd ym mywyd dyn. P'un ai ydych yn perthyn i draddodiad crefyddol neu'n anffyddiwr, yn ddyneiddiwr neu, fel sawl un arall 'ddim yn gwybod yn iawn', byddwch yn siŵr o ddarganfod rhywbeth o ddiddordeb ac o werth yn y cwrs.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd cymhwyster Astudiaeth Grefyddol yn agor y drws i ystod eang o swyddi a galwedigaethau. Mae cymhwyster mewn Addysg Grefyddol yn dderbyniol ar gyfer rhestr ddiddiwedd o yrfâu ond mae'n addas iawn ar gyfer swyddi gofal a lle bo dod ymlaen gyda phobl eraill yn bwysig. Bydd pob Prifysgol, a Choleg Addysg Uwch hefyd yn cydnabod Astudiaethau Crefyddol yn gymhwyster addas ar gyfer mynediad i amrywiaeth eang o gyrsiau. Aeth rhai cyn-fyfyrwyr ymlaen i astudio Astudiaethau Americanaidd, Archaeoleg, Celf, Drama, Saesneg, Hanes, y Gyfraith, Athroniaeth, Addysg Gorfforol, Gwleidyddiaeth, Seicoleg, Astudiaethau Crefyddol, Diwinyddiaeth a Chymdeithaseg.

Barn Myfyriwr - 'Mae'n eich gwneud yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas ac o ddaliadau pobl eraill.'

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae SNAB yn llawer mwy na chwrs Lefel A arall. Mae'n gwrs cyflawn sydd â'i athronyddiaeth unigryw ei hun. Cefnogir y cwrs gan ddeunyddiau dysgu o safon uchel.

Bwriad SNAB yw troi myfyrwyr Lefel A yn Fiolegwyr aeddfed ac effeithiol. Dylai Biolegydd da feddu ar wybodaeth drylwyr o egwyddorion biolegol, ond rhaid hefyd wrth y sgiliau i addasu'r wybodaeth honno yn ôl y galw. Mae SNAB yn cyflwyno'r cysyniadau allweddol yma sy'n sail i Fioleg heddiw, yn ogystal â ffordd strwythuredig i ddysgu'r sgiliau amgenach.

Dydy SNAB ddim yn cyflwyno'r cynnwys yn ôl themâu traddodiadol megis 'strwythur celloedd'; yn hytrach mae'r cwrs yn dilyn cyd-destunau amrywiol. Seilir testunau yn ôl rhediad stori o bynciau cyfoes fel risg a chlefyd cardiofasgwlaidd, gydag egwyddorion biolegol yn cael eu cyflwyno, pan fo'r angen, i helpu dealltwriaeth o'r testun.

Fe fydd y myfyrwyr yn medru defnyddio cwrs ar lein sy'n cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol, deunydd adolygu ar lein, profion a chymorth gyda gwaith cwrs. Mae gan bob myfyriwr ei hunaniaeth unigryw a chyfrinair a gall ddefnyddio'r wybodaeth gartref neu yn yr ysgol.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Testun 1 Ffordd o fyw, iechyd a risg

Mae'r testun hwn yn ymwneud â bioleg y galon, cylchrediad y gwaed a ffactorau risg sy'n cyfrannu at glefyd cardiofasgwlaidd.

Testun 2 Geneteg ac Iechyd

Mae hwn yn archwilio symptomau ac achosion ffibrosis systig ac yn manylu ar effeithiau'r clefyd ar yr ysgyfaint a'r system dreulio.

Testun 3 Llais y genom

Mae hwn yn ystyried y modd y mae un wy yn datblygu i fod yn organeb gymhleth amlgellog. Ceir cyfle i drafod dadleuon moesegol o blaid ac yn erbyn y defnydd o gelloedd bonyn a photensial y celloedd hynny ym myd meddygaeth.

Testun 4 Planhigion a newidiadau i'r hinsawdd

Mae hwn yn archwilio sut mae planhigion wedi datblygu er mwyn goresgyn yr anawsterau o fod wedi'u lleoli mewn un man, ac yn bwrw golwg ar y modd mae bodau dynol wedi manteisio ar glyfrwch planhigion.

Gwaith Cwrs 20%

Mae hwn yn cynnwys cynhyrchu adroddiad o 2,000 o eiriau ar ymweliad â safle o ddiddordeb biolegol neu adroddiad ar fater biolegol.

Sgiliau Allweddol

Mae SNAB yn datblygu pob un o'r Sgiliau Allweddol.

Gofynion Mynediad

Mae myfyrwyr sydd wedi cael llai na BB yn yr Arholiad Gwyddoniaeth ac sydd wedi cael C neu'n is yn Saesneg a Mathemateg yn tueddu i weld Bioleg yn rhy anodd. Mae'r gallu i weithio'n galed er mwyn deall y pwnc yn hanfodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Bioleg yn mynd yn dda gyda Chemeg, Daearyddiaeth ac Ymarfer Corff. **Mae'r mwyafrif o'r cyrsiau Bioleg safon uwch yn gofyn bod myfyrwyr wedi astudio Bioleg a Chemeg.** Mae cyn-ddisgyblion Dyffryn Taf wedi astudio rhai o'r pynciau canlynol yn y Brifysgol:

Iechyd yr Amgylchedd	Seicoleg	Sŵoleg
Milfeddygaeth	Gwyddorau Anifeiliaid	Nyrsio
Fferylliaeth	Meddygaeth	Addysg

Gwybodaeth Gyffredinol
Mae Busnes Cymhwysol yn bwnc deinamig a chyfnewidiol. Mae'r pwnc yn ymwneud â'r byd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo, yn ogystal â'r byd lle byddwn yn byw ac yn gweithio ynddo yn y dyfodol. Yn ganolog i'r cwrs mae astudiaeth o'r materion busnes go iawn a wynebir gan gyrff lleol a chenedlaethol. Mae natur ymarferol ac ymchwiliol y pwnc yn galluogi myfyrwyr i gysylltu syniadau o lyfrau cwrs â bywyd go iawn.

Defnyddir ystod eang o adnoddau a gweithgareddau i gefnogi'r myfyrwyr gan gynnwys cyflwyniadau, y defnydd o TGCh, chwarae rôl, adroddiadau newyddion y dydd a mentrau cenedlaethol fel ProShare.

Anogir myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau 'Menter yr leuanc' er mwyn datblygu sgiliau entrepreneuriaid a sgiliau gwaith-tîm.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Mae lefel UG yn cynnwys 3 uned gwaith, Ymchwilio i Fusnes; Pobl Byd Busnes a Monitro a Chynllunio Cyllidol. Asesir Monitro a Chynllunio Cyllidol drwy arholiad ffurfiol; asesir yr unedau eraill drwy waith ymchwiliol cynhwysfawr.

Mae U yn cynnwys 3 uned bellach, Cynllunio Busnes, Gweithgareddau Hyrwyddol a Rheoli Pobl. Asesir Rheoli Pobl drwy arholiad ffurfiol; asesir yr unedau eraill drwy astudiaethau ymchwiliol cynhwysfawr.

Sgiliau Allweddol
Disgwylir i fyfyrwyr ddatys problemau a gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain wrth gynhyrchu gwaith portffolio. Mae digonedd o gyfleoedd i weithio gydag eraill wrth gynnal ymchwil i ymarfer busnes. Trwy gydol y cwrs, disgwylir i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, rhifedd a TGCh.

Gofynion Mynediad
Dydy TGAU Astudiaethau Busnes ddim yn hanfodol.
Disgwylir i'r rhai hynny sydd wedi astudio Busnes TGAU fod wedi cael Gradd C o leiaf.

Gwybodaeth Ychwanegol
Mae Busnes Cymhwysol yn paratoi disgyblion ar gyfer gwaith yn y dyfodol, ac er mwyn cael mynediad i Addysg Bellach. Bydd hefyd yn eu paratoi ar gyfer sefydlu eu menter busnes eu hunain. Mae tiwtoriaid Addysg Bellach a chyflogwyr yn gwerthfawrogi natur ymarferol ac ymchwiliol y cwrs sy'n arwain at ddatblygiad blaengaredd.

Barn Myfyriwr - 'Mae astudio Busnes yn agor eich llygaid i'r hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas chi. Mae'n gwneud i chi sylweddoli bod pob agwedd o'ch bywyd yn cael ei effeithio gan fusnes a dulliau busnes. Teimlaf fod gennyf y wybodaeth sydd ei angen i fod yn rhan o weithlu yn y dyfodol.'

Gwybodaeth Gyffredinol
Mae'r cwrs yn cynnig ystod amrywiol a chyfoethog o brofiadau, yn cynnwys peintio, graffeg, tecstilau, astudiaethau tri-dimensiwn ac ychydig o ffotograffiaeth. Mae astudiaethau beirniadol a theori hefyd yn bwysig.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Mae 4 uned i gyd.

2 uned ar gyfer UG

ART1 Un uned o waith cwrs (astudiaethau paratoadol a chefnogol, llyfr(au) brasluniau a therfynol) – wedi ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol; (30% o'r Lefel A llawn)

ART2 Tasg wedi ei gosod yn allanol, ei hamseru a'i harolygu (4 wythnos i baratoi, 8 awr i'w chwblhau). Gwneir y paratoi a'r dasg derfynol rhwng mis Mawrth a mis Mai. Asesir y dasg hon yn fewnol a'i safoni'n allanol yn yr ysgol ym mis Mehefin; (20% o'r lefel A llawn).

A 2 uned ychwanegol ar gyfer Lefel U:

ART3 Un uned o waith cwrs (astudiaethau paratoadol a chefnogol, llyfr(au) brasluniau a therfynol) – wedi ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol; (30% o'r lefel A llawn).

ART4 Tasg wedi ei gosod yn allanol, ei hamseru a'i harolygu (4 wythnos i baratoi, 12 awr i'w chwblhau). Gwneir y paratoi a'r dasg derfynol rhwng mis Chwefror a mis Mai. Asesir y dasg hon yn fewnol a'i safoni yn allanol yn yr ysgol ym mis Mehefin; (20% o'r Lefel A llawn).

Sgiliau Allweddol
Bydd y cwrs yn cyfrannu at asesiad o Sgiliau Allweddol Cyfathrebu, Rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth. Yn ogystal â hynny ceir cyfeiriadau at y sgiliau sylfaenol pellach o Gydweithio, Datrys Problemau a Gwella eich Dysgu.

Gofynion Mynediad
Yn gyffredinol Gradd C neu uwch yn TGAU ynghyd â phortffolio da o waith celf sy'n dangos sgil mewn ystod o dechnegau artistig; hefyd, ymroddiad a brwdfrydedd ynglŷn â chelf yn gyffredinol a pharodrwydd i weithio gartref ac yn yr ysgol.

Gwybodaeth Ychwanegol
Symud ymlaen at Gwrs Sylfaenol yn y Celfyddydau a Gradd Brifysgol. Ceir ystod eang o yrfaoedd yn cynnwys Cynllunio Graffeg, y Celfyddydau Cain, Dysgu, Cynllunio Tecstilau a Ffasiwn, Pensaernïaeth, Therapi Celfyddydol, Gwaith ffotograffiaeth ym myd y Teledu, Ffilm a'r Theatr.

Gwybodaeth Gyffredinol
Rhaid wrth feddwl chwim a pharodrwydd i wynebu cysyniadau anodd mewn dull rhesymegol a chreadigol. Mae'r her yn fawr ond y wobr yn fawr - sef mwynhau Safon U ymarferol sy'n bwysig iawn yn ein bywydau bob dydd. Cymharol fychan yw elfen Fathemategol y cwrs ond fe fyddwn yn edrych am fyfyrwyr â ganddynt gefndir gwyddonol da, meddwl ymchwilgar ac sy'n mwynhau Gwyddoniaeth ymarferol. Y mae Cemeg yn bwnc pwysig ynddo'i hun ond mae'n cyfuno'n dda â Bioleg, Ffiseg, Mathemateg a TG.

Ein cwrs Cemeg yw'r prosiect Cemeg Uwch Salters - y prosiect cyffrous a gynlluniwyd er mwyn trosglwyddo'n haws o Wyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol TGAU a seilir pob syniad Cemegol a astudir ar gyfres o storiâu cyfareddol sy'n hynod o berthnasol i'n bywydau bob dydd a'n dyfodol. Mae'r modiwlau yn cynnwys: Chwyldro Polymer, Beth Sydd Mewn Moddion, Lliw o Fwriad, Y Cefnforoedd.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
UG Mae dau bapur arholiad modwlar (1¼ awr a 1½ awr). Yn ogystal â hynny, asesir sgiliau arbrofi.

U Ceir dau bapur arholiad modwlar pellach (1½ a 2 awr). Mae'r gwaith cwrs ym mlwyddyn 13 ar ffurf ymchwil bersonol a gofynnir i fyfyrwyr ddewis prosiect cemegol o ddiddordeb iddynt hwy. Rhoddir 2 wythnos o amser gwersi i'r prosiect hwn.

Sgiliau Allweddol
Datblygir pob un o'r Sgiliau Allweddol trwy gydol y cwrs.

Gofynion Mynediad
Byddwn yn chwilio am fyfyrwyr gyda graddau TGAU da - gradd B o leiaf mewn Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol. Serch hynny mae agwedd a diddordeb o leiaf mor bwysig â chanlyniadau arholiad. Pynciau sy'n cyd-fynd â Chemeg yw Bioleg, Ffiseg, Mathemateg a TG.

Gwybodaeth Ychwanegol
Bu Cemeg yn un o ddiwydiannau pwysicaf Prydain erioed. Mae nifer fawr o yrfâu ac agoriadau addysg bellach ar gael. Mae astudio Cemeg hyd at Safon U yn hanfodol hefyd ar gyfer y rhai hynny sy'n ystyried unrhyw fath o yrfa mewn Meddygaeth, Bioleg neu yn ymwneud â'r Amgylchedd. Yn dilyn gradd Gemeg mae mwy na thraean myfyrwyr Prydain yn astudio ar gyfer gradd uwch. Mae nifer yn mynd i ddadansoddi a datblygu ymchwil gwyddonol.

Barn Myfyriwr - 'Naid fawr o TGAU …… dim yn hawdd i gyd ond os daliwch chi ati mae'n werth chweil'. 'Diddorol – gyda digon o waith ymarferol.' Nid yn unig rydych chi'n dysgu am Gemeg, rydych chi hefyd yn dod yn fwy ymwybodol o sut mae pethau'n digwydd yn y byd.' 'Llyfr da felly does dim cymryd nodiadau.'

Gwybodaeth Gyffredinol
Mae tair elfen yn y cyrsiau UG a lefel U:

- Perfformio
- Cyfansoddi
- Gwerthuso.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Mae Cerddoriaeth UG yn cynnwys:

Arfarnu a Gwrando -	astudiaeth o Gerddoriaeth o Draddodiad Clasurol y Gorllewin, a naill ai jazz, Roc a Pop, neu gerddoriaeth Gymraeg.
Cyfansoddi –	ffolio o 2 gyfansoddiad.
Perfformio –	datganiad o 8 munud i gynnwys unawd a/neu chwarae fel aelod o ensemble.

Mae Cerddoriaeth U yn cynnwys:

Gwrando a gwerthuso –	astudiaeth o Gerddoriaeth y Gorllewin yn yr 20fed ganrif a'r 21ain ganrif.
Cyfansoddi –	ffolio o 2 gyfansoddiad.
Perfformio –	datganiad o 12 minutes i gynnwys unawd a/neu chwarae fel aelod o ensemble.
Gwrando ac arfarnu –	Arholiad allanol ym mis Mai/Mehefin.
Cyfansoddi –	Gwaith Cwrs 100%: Asesir yn fewnol a safonir yn allanol.
Perfformio –	Asesir gan arholwr allanol fydd yn ymweld â'r ysgol.

Sgiliau Allweddol
Gellir datblygu'r Sgiliau Allweddol canlynol trwy astudio Lefel A Cerddoriaeth:-

Cyfathrebu; TGCh; Datrys Problemau; Gweithio gydag Eraill; Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Gofynion Mynediad
Rhaid cael TGAU Cerddoriaeth i wneud Cerddoriaeth UG. Mae'n gwrs ar gyfer cerddorion sydd o ddifri, a chanddynt ddawn arbennig o ran perfformio neu gyfansoddi.

Gwybodaeth Ychwanegol
Y mae'r gyrfâu posibl yn cynnwys: Cerddor Proffesiynol, Athro/athrawes, Athro Offeryn Cerdd, Therapi Cerddorol, Gweinyddiaeth y Celfyddydau, Peiriannydd Sain/Recordio, Y Lluoedd Arfog a Rheoli Cyngherddau.

Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael o NGfL Cymru.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae hwn yn ymwneud â defnydd a chyfansoddiad Systemau Cyfrifiadurol. Mae'n edrych nid yn unig ar yr elfennau sy'n ffurfio system ond y strwythurau a'r rhesymeg sy'n gwneud i'r elfennau hyn weithio. Mae e hefyd yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr ehangu eu sgiliau TGCh i raglennu a chynllunio systemau. Gellir dilyn y cwrs hwn ochr yn ochr â TGCH.

Bydd myfyrwyr yn cynyddu eu gwybodaeth o systemau cyfrifiadurol gan roi mwy o ddealltwriaeth iddynt yn y dyfodol, gan ganiatáu iddynt fynd ymlaen i Addysg Uwch a thu hwnt. Mae'r pwnc hwn yn cydweddu orau â phynciau gwyddonol neu dechnegol eraill.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Asesir drwy gyfrwng 4 asesiad diwedd modiwl, dau bapur ysgrifenedig a dau brosiect.

UG (2 uned)

COMP1 (30% - 2 awr) – Papur o ddwy adran. Mae Adran A yn ymdrin â Datrys Problemau a Chynrychioli Data. Mae Adran B yn gofyn i chi ddadansoddi ac ysgrifennu cod rhaglenni. Gwneir yr arholiad hwn ar-lein.

COMP2 (20% - 1 awr) – Papur ysgrifenedig o un adran, wedi'i gyflwyno mewn llyfryn cwestiwn ac ateb yn ymdrin â Chydrannau cyfrifiaduron, y cysyniad o Raglenni wedi'u Storio a'r Rhyngrwyd.

U (yr uchod yn ogystal â 2 uned ychwanegol)

COMP3 (30% - 2½ awr) – Papur ysgrifenedig o un adran, yn ymdrin â Datrys Problemau, Rhaglennu, Basau Data a Rhwydweithio. Asesir ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig mewn un cwestiwn.

COMP4 (20% - Asesiad mewnol) – Mae ymgeiswyr yn dadansoddi, cynllunio, gweithredu, profi a gwerthuso datrysiad i broblem sylweddol o'u dewis eu hunain sy'n gofyn am gynhyrchu cod gwreiddiol (rhaglennu). Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith a wneir dros gyfnod estynedig o amser.

Sgiliau Allweddol

Mae llwyddiant ar lefel UG yn eich eithrio rhag Sgil Allweddol TG Lefel 3. Mae elfennau o'r cwrs hwn yn cyfrannu at bob un o'r Sgiliau Allweddol eraill. Mae manylion ar gael os ydych yn dymuno.

Gofynion Mynediad

Dydy Diploma mewn Cymwysiadau Digidol ddim yn hanfodol ond byddai'n ddefnyddiol.. Rhoddir ystyriaeth unigol i bob myfyriwr sydd heb astudio'r pwnc yn flaenorol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs Safon UG/U hwn yn hanfodol ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno astudio Cyfrifiaduron neu bynciau cysylltiedig ar lefel uwch. Gall fod yn ddefnyddiol iawn hefyd i unrhyw un sy'n debyg o ddefnyddio cyfrifiaduron o ddifrif yn y gwaith, yn arbennig felly os yw'r gwaith o natur wyddonol neu dechnegol. Mae'r cwrs hwn felly o ddiddordeb arbennig i'r rhai sy'n debygol o ddilyn gyrfa ym myd Cyfrifiadureg, TGCh, Gwyddoniaeth neu Beirianneg.

Barn Myfyriwr - 'Mae Lefel U Cyfrifiaduron wedi bod yn gwrs gwerthfawr, mae wedi fy helpu i ddeall cyfrifiaduron a sut maen nhw'n gweithio. Rydyn ni hefyd yn gwneud llawer o raglennu sy'n wahanol ac yn ddiddorol ac sydd wedi helpu i ddatblygu fy sgiliau technegol a'm sgiliau datrys problemau.'

Gwybodaeth Gyffredinol

Amcan y cwrs yw datblygu gallu'r ymgeisydd i'w fynegi ei hun yn y Gymraeg, i annog darllen eang yn ogystal ag astudiaeth fanwl o wahanol ffurfiau llenyddol, hyrwyddo'r gallu i ymateb i lenyddiaeth ac i fynegi'r ymateb hwnnw, a hefyd ennyn gwerthfawrogiad o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG **CY1** Ffilm a Drama a Llafaredd – arholiad llafar – ¾ awr (mewn grwpiau) 20%
CY2 Asesiad Mewnol Ysgrifenedig 15%
CY3 Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr – Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth 15%

U **CY4** Y Nofel a Llafaredd – arholiad llafar – ¾ awr (mewn grwpiau) 15%
CY5 Arholiad Ysgrifenedig – 1½ awr – Y Chwedlau, Yr Hengerdd a'r Cywyddau 15%
CY6 Arholiad Ysgrifenedig – 2¼ awr – Llenyddiaeth a Defnyddio'r Iaith 20%

Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio Cymraeg ar gyfer UG a Safon U a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar Lefel 3:- Cyfathrebu: TGCh: Gweithio gydag Eraill: Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun.

Gofynion Mynediad

Gradd C TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg. Rhaid wrth ymroddiad llwyr a pharodrwydd i weithio'n galed ac i ddarllen yn eang.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gallwch fynd ymlaen i'r Coleg a chael gradd Brifysgol. Aeth rhai o'n disgyblion i ddilyn cwrs Astudiaethau Celtaidd yng Nghaergrawnt. Mae'r dewis o yrfâu yn ddiddiwedd – addysg, y cyfryngau, newyddiaduraeth, gwaith ysgrifenyddol, cyfieithu, y theatr …..

Barn Myfyriwr - 'Cwrs diddorol a wnaeth i mi ddarllen yn eang. Fe wnaeth i mi feddwl yn galed iawn am fy mywyd.' 'Fe wnes i fwynhau astudio technegau'r ffilm a'r ymchwil i hanes lleol ar gyfer fy ngwaith ffolio.'

Gwybodaeth Gyffredinol

Cynlluniwyd y maes llafur newydd er mwyn annog myfyrwyr i ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio'r Iaith Gymraeg. Cymerwyd mantais o'r cyfle i ddatblygu elfennau newydd, cyffrous a pherthnasol tra'n cadw'r elfennau traddodiadol sy'n rhan hanfodol o astudio'r Gymraeg fel ail iaith ar y lefel hon.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG **CA1** Y Ffilm – arholiad llafar - 30 munud (mewn grwpiau) 20%
CA2 Gwaith Cwrs Ysgrifenedig 15%
CA3 Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr - Defnyddio'r Iaith (Gramadeg) a Barddoniaeth 15%

U **CA4** Drama – arholiad llafar – ½ awr (mewn grwpiau) 15%
CA5 Arholiad Ysgrifenedig - 1¾ awr - Straeon Byrion ac Ysgrifennu Ymarferol 20%
CA6 Arholiad Ysgrifenedig - 1¾ awr - Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth 15%

Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio Cymraeg Ail Iaith ar gyfer UG a Safon U a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar Lefel 3 (neu Lefel 2 yn achos Cyfathrebu):- Cyfathrebu: TGCh: Datrys Problemau: Gweithio gydag Eraill: Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun.

Gofynion Mynediad

Gradd C neu uwch mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith, gyda gafael dda ar yr Iaith lafar. Rhaid eu bod wedi astudio'r Cwrs Uwch ar lefel TGAU.

Ni fydd ymgeiswyr wedi sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Gwybodaeth Ychwanegol

Symud ymlaen i Goleg a gradd Prifysgol. Mae'r dewis o yrfâu yn ddiddiwedd - addysgu, y cyfryngau, newyddiaduraeth, gwaith ysgrifenyddol, cyfieithu, y theatr - chi sydd i ddewis!

Disgwylir i fyfyrwyr brynu eu copi eu hunain o'r Geiriadur Mawr. Disgwylir iddynt hefyd brynu copïau o gylchgronau a phapurau newydd yn rheolaidd. Mae ymweliadau â'r theatr a mynd ar gyrsiau hefyd yn rhan hanfodol o'r cwrs (bydd rhai o'r cyrsiau hyn yn gyrsiau preswyl).

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Daearyddiaeth UG ac U yn datblygu testunau a astudiwyd ar lefel TGAU yn ogystal â chyflwyno testunau newydd. Ceir pwyslais cyfartal ar ochr ffisegol neu wyddonol y pwnc a'r ochr ddynol. Dylai'r cwrs, felly, apelio at fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau UG a Lefel U yn y Celfyddydau ac yn y Gwyddorau fel ei gilydd.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG 2 bapur arholiad
- **G1** Amgylcheddau Ffisegol Newidiol
- **G2** Amgylcheddau Dynol Newidiol

Mae'r ddau yn profi sgiliau Ymchwilio yn ogystal â'r testunau 'theori'.

U
- **G3** Un papur gyda chwestiynau traethawd ar Ddaearyddiaeth Ddynol a Ffisegol (themâu cyfoes) a chwestiynau ar Ymchwil Gwaith Maes.
- **G4** Un papur Gwneud Penderfyniadau (Datblygiad Cynaliadwy).

Sgiliau Allweddol

Mae gwaith maes yn rhan bwysig o bron bob modiwl. Asesir y sgiliau a ddysgir ar y teithiau hyn fel rhan o'r arholiad ac fe'u defnyddir i baratoi ar gyfer Aseiniad Daearyddol Unigol U. Gellir defnyddio rhai fel rhan o'r Portffolio Sgiliau Allweddol.

Gofynion Mynediad

Gafael dda ar y pynciau a astudiwyd ar gyfer TGAU, a diddordeb ynddynt. Dylech chi fod wedi cael Gradd C neu uwch yn yr arholiad TGAU. Parodrwydd i weithio'n annibynnol - mae hyn yn bwysig ar gyfer y Gwaith Cwrs a'r modiwlau a ddysgir yn y gwersi. Y gallu i ysgrifennu Saesneg cywir - mae'r arholiadau yn cynnwys traethodau - ac i ymdopi â Mathemateg sylfaenol yn hanfodol (neu o leiaf ddylech chi ddim ofni rhifau!).

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Daearyddiaeth yn bwnc UG/U defnyddiol ar gyfer unrhyw un â diddordeb mewn gyrfa sy'n gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd naturiol a'i bobl. Edrychwch ar yr hysbysfwrdd yn Ystafell 24 am wybodaeth ynglŷn â Daearyddiaeth a chyrsiau cysylltiedig mewn Addysg Uwch.

Barn Myfyrwyr – Siaradwch â Daearyddwyr y Chweched Dosbarth!

Gwybodaeth Gyffredinol

Bydd y cwrs yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion:

- ennill cymhwyster lefel mynediad ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch;
- ddatblygu eu sgiliau mewn nifer o elfennau drama ymarferol gan ddewis o blith actio, cyfarwyddo, gwisgoedd, setiau, cynllunio masgiau a chynllunio technegol;
- rhoi dewis eang o ddramâu gosod i'r disgyblion eu hastudio a chyfle i ysgrifennu am y cynyrchiadau byw a welwyd.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Modiwlau UG

Bydd disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer theatr trwy eu hymgysylltiad hwy eu hunain â'r cyfrwng. Byddant yn datblygu sgiliau perfformio a sgiliau priodol ar gyfer creu a chyflawni drama a theatr.

Bydd Uned 1 – (100 marc) yn cynnwys:

- Ymateb personol disgyblion i theatr fyw a welwyd yn ystod y cwrs.
- Dehongli drama osod o safbwynt perfformiad.

Bydd Uned 2 – Ymarferol (80 marc) yn cynnwys:

- Disgyblion yn cydweithio mewn grwpiau i ddatblygu a chyflwyno detholiad allan o ddrama gyhoeddedig o'u dewis.
- Astudiaeth o gyfarwyddwr, cynllunydd, Cwmni Theatr neu unrhyw ymarferydd arall sy'n gysylltiedig â gwaith ymarferol yr ymgeisydd.

Modiwlau U

Rhoddir y cyfle i ddisgyblion ddatblygu'r sgiliau ac ymestyn a chymhwyso'r wybodaeth a enillwyd wrth astudio ar lefel UG.

Bydd Uned 3 – (100 marc) yn cynnwys:

- Astudiaeth o ddrama osod gan ddewis o blith amryw o ddramâu a ysgrifennwyd cyn yr ugeinfed ganrif.
- Astudiaeth o ddrama osod gan ddewis o blith amryw o ddramâu yr ugeinfed ganrif neu ddramâu cyfoes.

Bydd Uned 4 – Ymarferol (80 marc) yn cynnwys:

- Cydweithio mewn grwpiau i ddatblygu a chyflwyno drama ddyfeisiedig wedi'i pherfformio mewn arddull theatrig o'u dewis eu hunain.
- Ymchwil i arddull theatrig wedi'i ddewis gan y grŵp ar gyfer eu gwaith ymarferol.

Sgiliau Allweddol

Cyfathrebu: Gweithio gydag Eraill:

Gofynion Mynediad

Gradd C neu uwch yn eich arholiad TGAU Drama a'ch arholiad Saesneg.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Drama ac Astudiaethau Theatr yn cynnwys ystod eang o weithgareddau ysgrifenedig ac ymarferol sy'n ei wneud yn ffordd ddelfrydol o helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Sgiliau Allweddol: Cyfathrebu, Gweithio gydag Eraill, Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad a Datrys Problemau.

Barn Myfyriwr - Mae'r cwrs Safon U yn cynnig astudiaeth ddofn o amrywiaeth o lenyddiaeth ac o berfformiad theatrig yn ogystal â bod yn heriol yn academaidd. 'Mae'r lefel o gynhaliaeth tiwtor yn ardderchog gyda thîm ymroddedig a gwybodus o athrawon yn barod i gynnig cymorth a chyngor pan fo angen hynny.' 'Mae'n ddifyr dros ben!' 'Mae'r cwrs yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu sgiliau bywyd pwysig!'

Gwybodaeth Gyffredinol

Bwriedir y fanyleb newydd ar gyfer ymgeiswyr a fydd yn dilyn cwrs addysg uwch yn uniongyrchol neu ddilyn gyrfa mewn Technoleg Bwyd neu feysydd eraill cysylltiedig. Gall y rheini sydd â diddordebau a dyheadau eraill elwa hefyd o'r sgiliau trosglwyddadwy niferus sy'n rhan gynhenid o astudio Technoleg Bwyd. Mae'r cwrs yn annog myfyrwyr i baratoi ar gyfer byd gwaith, i ddatblygu meddyliau beirniadol ac i fod yn ddefnyddwyr craff.

Gall rhai cyd-destunau posibl ar gyfer y gwaith gynnwys diwydiant, masnach, anghenion cymdeithasol a materion amgylcheddol.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG	DT1	Papur Arholiad – 2 awr	40% o UG
		Bydd y papur hwn yn cynnwys dwy adran a fydd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr o gynnwys un rhan benodol o'r pwnc	
	DT2	Tasg cynllunio a gwneud	60% o UG
		Bydd ymgeiswyr yn cyflwyno un dasg cynllunio a gwneud a fydd yn bodloni'r meini prawf asesu UG	
U	DT3	Papur Arholiad Ysgrifenedig – 2½ awr	40% o U
	DT4	Prif Brosiect	60% o U

Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn rhan integreiddiedig o astudio Dylunio a Thechnoleg ac fe asesir y cyfan o fewn cyd-destun y pwnc fel y nodir yn y fanyleb. Yn gyffredinol, asesir ymgeiswyr ar eu gallu i drefnu a chyflwyno gwybodaeth, syniadau, disgrifiadau a dadleuon yn eglur ac yn rhesymegol, gan ystyried eu defnydd o ramadeg, atalnodi a sillafu. Yn fanylach, bydd y fanyleb yn cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ennill ystod o sgiliau mewn Cyfathrebu, Datrys Problemau a defnyddio Technoleg Gwybodaeth. Yn ogystal â hynny, caiff yr ymgeiswyr gyfle i ddatblygu'r Sgiliau Allweddol ychwanegol o Ddefnyddio Rhif, Gweithio gydag Eraill a Gwella eu Dysgu a'u Perfformiad eu Hunain.

Gofynion Mynediad

Awgrymir bod myfyrwyr wedi dilyn cwrs TGAU Dylunio a Thechnoleg, ond nid yw hynny'n angenrheidiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gallai profiad o'r cwrs hwn fod yn hynod werthfawr ym mywydau a gyrfâu'r ymgeiswyr. Pynciau ychwanegol da fyddai Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol.

Mae yna hefyd gysylltiadau amlwg gyda gyrfâu yn y Diwydiant Bwyd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Diwydiant Hamdden a Dietegydd.

Gwybodaeth Gyffredinol

Bwriedir y fanyleb newydd ar gyfer ymgeiswyr a fydd yn dilyn cwrs Addysg Uwch yn uniongyrchol neu yn dilyn gyrfa sy'n gysylltiedig â'r maes. Gall y rheini sydd â diddordebau a dyheadau eraill elwa hefyd o'r sgiliau trosglwyddadwy niferus sy'n rhan gynhenid o astudio Dylunio a Thechnoleg. Mae'r cwrs yn annog myfyrwyr i baratoi ar gyfer byd gwaith, i ddatblygu meddyliau beirniadol ac i fod yn ddefnyddwyr craff. Gall rhai cyd-destunau posibl ar gyfer y gwaith gynnwys diwydiant, masnach, anghenion cymdeithasol a materion amgylcheddol. Bydd myfyrwyr yn dilyn cwrs Cynllunio Cynnyrch drwy gyfrwng ystod o ddeunyddiau. Mae'r cwrs yn addas ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn gweithio gyda Deunyddiau Caled, Tecstilau a Rheoli Systemau.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG	DT1 – Papur Arholiad – 2 awr	40% o UG
	Bydd y papur hwn yn cynnwys dwy adran a fydd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o gynnwys un rhan benodol o'r pwnc.	
	DT2 – Tasg cynllunio a gwneud	60% o UG
	Bydd ymgeiswyr yn cyflwyno un dasg cynllunio a gwneud a fydd yn bodloni'r meini prawf asesu UG.	
U	DT3 – Papur Arholiad Ysgrifenedig – 2½ awr	40% o U
	DT4 – Prif Brosiect	60% o U

Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn rhan integreiddiedig o astudio Dylunio a Thechnoleg ac fe asesir y cyfan o fewn cyd-destun y pwnc fel y nodir yn y fanyleb. Yn gyffredinol, asesir ymgeiswyr ar eu gallu i drefnu a chyflwyno gwybodaeth, syniadau, disgrifiadau a dadleuon yn eglur ac yn rhesymegol, gan ystyried eu defnydd o ramadeg, atalnodi a sillafu.

Gofynion Mynediad

Rhaid bod wedi dilyn cwrs TGAU Dylunio a Thechnoleg. Pynciau eraill sy'n mynd yn dda gyda DTh yw Ffiseg a Mathemateg (yn arbennig ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn Peirianneg) neu Gelf a Dylunio. Mae e hefyd yn bedwerydd pwnc ardderchog ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12 sydd am gael blas ymarferol yn eu gwaith.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gallai profiad o'r cwrs hwn fod yn hynod werthfawr ym mywydau a gyrfaoedd yr ymgeiswyr. Pwnc ychwanegol da gyda phynciau Gwyddonol ar gyfer gyrfa mewn Peirianneg, Pensaernïaeth, a Thirfesureg yn ogystal â chyrsiau Celf a Dylunio.

Barn Myfyrwyr - 'Pwnc difyr iawn a'r disgyblion yn gallu dewis prosiectau amrywiol mewn sawl deunydd ac yn ôl eu diddordeb.'

Ffiseg B – Ffiseg mewn Cyd-destun AQA
Safon UG/U
www.aqa.org.uk
Dr M Smith

Dyffryn Taf

Gwybodaeth Gyffredinol

Dyma ddull newydd a chyffrous o fynd i'r afael â Ffiseg, yn pwysleisio cyd-destunau a chymwysiadau newydd gyda llyfrau testun cynhwysfawr ar gyfer y myfyrwyr. Rhennir y cwrs yn 6 uned, pob un ohonynt â thema berthnasol i Ffiseg yn ein bywyd bob dydd ac i sawl gyrfa.

UG		***U***	
Uned 1	Cytgord a Strwythur yn y Bydysawd	Uned 4	Ffiseg i mewn ac allan
Uned 2	Ffiseg yn ein cadw i fynd	Uned 5	Ynni dan y Meicroscop
Uned 3	Sgiliau Ymchwilio a Sgiliau Ymarferol, UG	Uned 6	Sgiliau Ymchwilio a Sgiliau Ymarferol, U

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Bydd y radd derfynol yn dibynnu ar y canlynol:

Papurau arholiad (80%): papurau modiwl a sefir yn ystod y cwrs, ar ddiwedd y cwrs neu gymysgedd o'r ddau.

Gwaith cwrs (20%): mae hwn yn cynnwys:
Arbrofion dosbarth, gydag arholiad gwaith cwrs ISA i ddilyn, sy'n debyg o ran fformat i'r arholiad a safwyd ar lefel TGAU.

Sgiliau Allweddol

Mae sgiliau allweddol wedi'u cynnwys trwy gydol y cwrs, gyda phwyslais arbennig ar Gyfathrebu, TGCh a Rhifedd.

Gofynion Mynediad

Mae angen o leiaf gradd dda mewn Gwyddoniaeth Ddwbl a Mathemateg ar lefel TGAU. Mae Ffiseg yn mynd yn dda gyda Chemeg, Daearyddiaeth, Bioleg, TG ac wrth gwrs Mathemateg.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cyfleoedd gyrfâu ardderchog. Mae astudio Ffiseg yn bwysig gogyfer â gyrfa mewn:
Rheoli Trafnidiaeth yr Awyr, Peirianneg Sifil – Trydanol, Electroneg, Sifil a Chemegol, Geoffiseg, Metaleg/Gwyddoniaeth Defnydd, Meteoroleg, Optegydd, Telathrebu, Nyrsio Arbenigol - Radiograffydd, Ffisiotherapydd.

Barn Myfyriwr – 'Maes llafur defnyddiol iawn gogyfer â sawl gyrfa a chwrs prifysgol.'
'Mae'r gwaith ymarferol yn annog darllen o gwmpas y maes llafur ac yn cynnwys gwella sgiliau Technoleg Gwybodaeth.'

Gwybodaeth Gyffredinol

Bydd Safon A Ffrangeg ac Almaeneg yn eich helpu i ddatblygu ymhellach y sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu a ddechreuoch chi ar gyfer TGAU ac yn eich cyflwyno chi i lenyddiaeth Ffrangeg ac Almaeneg. Byddwch yn gweithio o fewn fframwaith o destunau, yn cynnwys er enghraifft Cymdeithas, Gwleidyddiaeth, Addysg, Chwaraeon a Hamdden, Economi Ieuenctid, yr Amgylchedd a'r Cyfryngau, a fydd yn rhoi sgiliau iaith i chi ar gyfer gwaith, hamdden a phleser! Byddwch yn defnyddio ystod eang o ddefnyddiau ac adnoddau, a chewch gyfle hefyd i ymweld â Ffrainc a'r Almaen ar wyliau, fel rhan o Raglen Gyfnewid yr Adran ac ar gyfnod o Brofiad Gwaith.

Gyda 1992 daeth y farchnad gyffredin a chynnydd mewn masnach a phersonél rhwng gwledydd Y Gymuned Ewropeaidd. I chi, mae'r Mileniwm Newydd yn golygu bod rhaid i chi gystadlu â'ch cyfoedion o Ewrop, ym mhob agwedd o'ch bywyd, a byddant hwy, gallwch chi fentro, yn defnyddio eu sgiliau ieithyddol hyd yr eithaf.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

UG Bydd myfyrwyr yn sefyll dau arholiad, Llafar (40% UG, 20% U), Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu (60% UG, 30% U). Yn gyffredinol bydd rhaid ateb yn yr iaith darged.

U Bydd myfyrwyr yn sefyll dau arholiad pellach, Llafar (20%) a Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu (30%). Bydd y cwrs UG hefyd yn cynnwys cynhyrchu traethawd ysgrifenedig ar naill ai Byd y Sinema neu ar Lenyddiaeth, neu ar Ranbarth yn Ffrainc/yr Almaen.

Sgiliau Allweddol

Byddwch yn naturiol yn gwella eich gallu i gyfathrebu.
Bydd sawl cyfle i ddefnyddio TG.
Bydd eich sgiliau cyflwyno yn gwella.
Bydd rhaid i chi gyd-weithio ag eraill er mwyn cyrraedd nodau cyffredinol.
Bydd cyfle i chi gyflwyno tystiolaeth i brofi eich bod wedi gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun.

Gofynion Mynediad

Fel rheol bydd angen gradd C TGAU neu uwch ond rhoddir ystyriaeth i achosion unigol yn ôl eu teilyngdod.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd astudio Ieithoedd Modern hyd at Safon U yn eich dodi chi ar frig y rhestr! Pe bai dau berson a chanddynt yr un cymwysterau a'r un profiad yn ceisio am swydd, y person â'r sgiliau ieithyddol fyddai'n ei chael hi. Mae llai na 5% o raddedigion yn athrawon neu'n cyfieithu. Mae astudio Ieithoedd Modern yn eich rhoi chi ar y blaen.

Mehr als 100 Millionen Leute sprechen Deutsch, plus eins – DU!
Plus de 100 millions de gens parlent francais, plus un(e) – TOI!

Ydych chi'n gweld beth rydyn ni'n feddwl?

Barn Myfyriwr - 'Cwrs pleserus ond rhaid i ni fod yn barod i wneud llawer o siarad yn y dosbarth, a darllen gartref.'

Gwybodaeth Gyffredinol
Ar gyfer Safon UG/A Hanes rydyn ni'n astudio:-

HY1 Cymru a Lloegr 1780 – 1886
HY2 Y Chwyldro Ffrengig 1774 – 1795
HY3 Y Chwyldro Ffrengig 1774 – 1795
HY4 Cymru a Lloegr 1780 – 1886

Ceir cydbwysedd da o faterion gwleidyddol a chymdeithasol i'w hymchwilio a disgwylir i fyfyrwyr ddarllen yn eang. Ar wahân i ennill gwybodaeth, mae Hanes yn gymorth i ddatblygu sgiliau llenyddol ac yn gosod pwyslais ar astudiaeth annibynnol.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Ar ddiwedd Blwyddyn 12 bydd disgyblion yn sefyll 2 fodiwl a fydd yn profi testunau o'r ddau faes astudio. Bydd arholiad ffurfiol ym mhob un o'r 2 fodiwl a all arwain at ennill gradd UG.

Mae 2 fodiwl pellach ar gyfer y disgyblion sy'n mynd ymlaen i Flwyddyn 13. Un o'r rhain fydd modiwl gwaith cwrs yn seiliedig ar waith ar y Chwyldro Ffrengig, tasg wedi ei gosod yn fewnol ond wedi ei safoni gan y bwrdd arholi. Arholir y modiwl arall ar ffurf traethodau gan brofi'r ddau faes astudio.

Sgiliau Allweddol
Gellid defnyddio amryw o'r aseiniadau y byddwch yn eu cwblhau yn ystod y ddwy flynedd i ennill cymhwyster sgiliau allweddol mewn Cyfathrebu.

Gofynion Mynediad
Mae TGAU Hanes yn fantais ond **nid yw'n hanfodol**. Gall unrhyw un sy'n mwynhau darllen a chanddo/chanddi sgiliau llenyddol da lwyddo yn Safon A. Yr hyn sy'n hanfodol yw'r parodrwydd i ddarllen ac ymchwilio'r pwnc.

Gwybodaeth Ychwanegol
Mae astudio Safon U Hanes yn baratoad ardderchog gogyfer ag unrhyw yrfa yn ymwneud â sgiliau ysgrifennu neu ddadansoddi rhesymegol. Yn ogystal â hynny mae'r hyfforddiant mewn crynhoi a chyflwyno dadleuon yn baratoad ardderchog ar gyfer y Gyfraith. Bydd nifer o fyfyrwyr Hanes yn dilyn gyrfâu yn y Gyfraith, Cyfrifyddiaeth, Cyllid, Gweinyddu ac ati.

Mae gwefan llawn manylion ar gael hefyd am y Chwyldro Ffrengig ynghyd â ffynonellau– Liberty Equality Fraternity, yn ogystal â The Peel Web sy'n cynnwys nodiadau manwl ar sawl agwedd o'r cwrs amlinellol ar Brydain gyda ffynonellau sylfaenol.

Barn Myfyriwr – 'Nid astudio ffeithiau a dyddiadau yn unig mo Hanes ond archwilio rhai o gyfnodau mwyaf diddorol Hanes y Byd.' 'Mae Hanes yn ddiddorol a boddhaol'.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r Wobr Sengl yn gwrs a gynlluniwyd i roi sylfaen gyffredinol i fyfyrwyr mewn maes galwedigaethol. Mae hefyd yn gwrs mewn Seicoleg Gymhwysol, sy'n edrych ar y Wladwriaeth Les, y GIG a'r goblygiadau i'n cymdeithas fodern. Mae myfyrwyr yn edrych ar faterion sy'n gysylltiedig â gofalu am eraill a beth fydd dyletswyddau ein cymdeithas yn y dyfodol. Mae'r gwaith yn trafod anffafriaeth, datblygiad plant a materion yn ymwneud â chyfathrebu. Gall myfyrwyr ganolbwyntio ar y meysydd sydd o ddiddordeb personol iddynt ar gyfer eu portffolios. Mae'r myfyrwyr yn astudio chwe uned o waith yn ystod y ddwy flynedd.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Yn ystod Blwyddyn 12, mae myfyrwyr yn cynnal ymchwiliadau i ddarparwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol lleol. Mae'r ymchwiliadau hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gynhyrchu portffolios ar gyfer 2 uned a asesir – Cyfathrebu a Gwerthoedd; Amgylcheddau Gofal Positif. Asesir y portffolios hyn yn fewnol a'u safoni yn allanol. Mae myfyrwyr hefyd yn astudio Twf a Datblygiad Dynol. Asesir yr uned hon trwy gyfrwng arholiad allanol.

Yn ystod Blwyddyn 13, mae myfyrwyr yn cynhyrchu 2 bortffolio ychwanegol. Mae un yn cynnwys creu a gweithredu Ymgyrch Hybu Iechyd. Mae'r darn olaf o waith portffolio yn cynnwys ymchwilio i Glefydau Trosglwyddadwy ac Anhrosglwyddadwy. Asesir y portffolios hyn yn fewnol a'u safoni yn allanol.

Yn olaf mae myfyrwyr yn astudio darpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU ac yn sefyll arholiad ffurfiol ar Ateb Anghenion yr Unigolyn.

Sgiliau Allweddol

Trwy gydol y cwrs, bydd cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau cyfathrebu a TGCh. Er mwyn cynhyrchu gwaith portffolio mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddatrys problemau a gwella eu dysgu eu hunain. Bydd cyfleoedd yn codi i fyfyrwyr weithio ag eraill wrth gynnal gwaith ymchwil.

Gofynion Mynediad

Gan fod y cwrs yn gyfartal ag un Lefel A, dylai myfyrwyr fod yn barod i weithio ar y lefel honno.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gall y cwrs eich paratoi ar gyfer cyrsiau Addysg Uwch neu ddarparu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer byd gwaith, er enghraifft, gweithio gyda: Phlant; Yr Henoed; Yr Anabl; Y sâl eu corff neu sâl eu meddwl; Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae hwn yn gwrs da i arwain at Addysgu Cynradd neu Nyrsio.

Barn Myfyriwr – 'Rhoddodd y cyfle i mi wneud Lefelau A ochr yn ochr â chwrs galwedigaethol'. 'Rwy'n mwynhau ochr ymarferol y cwrs. Bydd o gymorth i mi yn fy ngyrfa yn y dyfodol – nyrsio'.

Gwybodaeth Gyffredinol
Ar gyfer y cwrs Llenyddiaeth Saesneg Safon U bydd rhaid darllen amrywiaeth eang o lyfrau, o destunau clasurol i lenyddiaeth gyfoes. Byddwn yn darllen a thrafod y gweithiau mewn grwpiau bychain, gyda'r pwyslais ar annog myfyrwyr i ddatblygu a mynegi eu syniadau a'u barn bersonol. Bydd disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gyd-destun y testunau yn ogystal â datblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol eu hunain.

Manteisir ar bob cyfle i weld y dramâu wedi eu perfformio ar lwyfan. Bydd ffilmiau, darlithoedd ac ymweld â chwmnïau drama hefyd yn ychwanegu at y trafodaethau gyda'r athro.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Un arholiad ac un uned o waith cwrs ar gyfer UG ac U fel ei gilydd.

UG
Barddoniaeth wedi1900 a Drama wedi1900 – arholiad 2½ awr
Astudiaeth o ryddiaith 1800-1945 ac Ysgrifennu Creadigol – gwaith cwrs

U
Astudiaeth o Gyfnod a Genre – gwaith cwrs
Barddoniaeth a Drama, gan gynnwys Shakespeare – arholiad 2½ awr

Sgiliau Allweddol
Mae sawl cyfle i ateb gofynion Cyfathrebu/Datrys Problemau/Gweithio gydag Eraill, a Thechnoleg Gwybodaeth.

Anghenion Mynediad
Gradd C TGAU o leiaf a diddordeb mewn darllen. Mae gradd yr arholiad iaith mor bwysig â'r un mewn llenyddiaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol
Derbynnir Lefel U Saesneg fel cymhwyster academaidd gan bob un o'r Prifysgolion ac mae'r pwnc yn ddefnyddiol iawn er mwyn ennill mynediad i gyrsiau'r Celfyddydau, y Gyfraith, y Cyfryngau a Rheolaeth.

Barn Myfyriwr - 'Rwy'n mwynhau'r cwrs oherwydd cam naturiol ar ôl TGAU ydy e. Rwy'n hoffi darllen ac rydyn ni'n astudio amrywiaeth eang o lyfrau. 'Mae'n ffynhonnell o ddifyrrwch ac yn llawlyfr o ganllawiau moesol a moesegol ar yr un pryd.' 'Dydy pethau ddim yn gywir neu'n anghywir yn Saesneg, bydd rhaid dadlau dros eich syniadau eich hunain.'

"There is no sin but ignorance." *Christopher Marlowe*

Gwybodaeth Gyffredinol
Rhaid i holl ddisgyblion Blwyddyn 12 ddilyn 3 modiwl, dau o Fathemateg Craidd a Modiwl Ystadegau. Ym mlwyddyn 13 mae disgyblion yn cymryd 2 fodiwl Mathemateg Craidd a naill ai modiwl Ystadegau neu fodiwl Mecaneg. Mae cyfle i'n Mathemategwyr galluog ddilyn y cwrs Mathemateg ddwbl.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
UG & U Asesir pob modiwl drwy arholiad yn unig.

Sgiliau Allweddol
Bydd pob agwedd yn cael sylw, yn arbennig felly os dewisir y modiwl Ystadegau.

Gofynion Mynediad
Argymhellir gradd dda yn yr arholiad TGAU, rydyn ni'n argymell Gradd B yn yr arholiad Haen Uwch Mathemateg. Rhaid i unrhyw un sydd heb lwyddo i gael gradd B drafod yr opsiwn hwn yn ofalus gyda'u hathrawon.

Gwybodaeth Ychwanegol
Mae Mathemateg yn bwnc pwysig ynddo'i hun a bron ei fod yn hanfodol i'r rhai hynny sydd am wneud Gradd mewn Peirianneg neu Ffiseg. Mae'r cwrs hefyd yn datblygu meddwl ymchwilgar sy'n hoff o ddatrys problemau - sgiliau sy'n hanfodol mewn sawl gyrfa. Mae gyrfâu sy'n galw am fewnbwn Mathemategol sylweddol yn cynnwys: Seiberneteg, Roboteg, Biomecaneg, Gwyddor Chwaraeon, Ffiseg, Peirianneg, Bioleg, Astudiaethau Busnes, Daearyddiaeth, Cemeg, Seicoleg, Meddygaeth, Nyrsio ac ati.

Barn Myfyrwyr – 'Anodd ond o fewn cyrraedd os gweithiwch chi'n galed. Os ydych chi wedi dilyn cwrs TGAU Haen A rydych chi eisoes wedi gwneud llawer o'r gwaith.'

Gwybodaeth Gyffredinol
Astudiaeth o bobl yw Seicoleg: sut maen nhw'n meddwl, sut maen nhw'n ymddwyn, ymateb a rhyngweithio. Mae Seicoleg yn ymwneud â phob agwedd o ymddygiad a'r meddyliau, y teimladau a'r rhesymau dros ymddygiad o'r fath. Mae Seicoleg yn un o'r pynciau sy'n cynyddu fwyaf o ran poblogrwydd ac mae ar gael fwyfwy mewn ysgolion a cholegau.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Mae'r cwrs UG yn cynnwys edrych ar Abnormalrwydd, Ymlyniad, Cof, Dulliau Ymchwil, Straen, a Dylanwad Cymdeithasol. Mae 2 fodiwl, a'r ddau ohonynt yn cael eu harholi trwy gyfrwng arholiadau 90 munud sy'n cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am atebion byr a hir.

Sgiliau Allweddol
Mae cyfleoedd Sgiliau Allweddol ar gael ym mhob un o'r chwe maes.

Gofynion Mynediad
Meddwl chwilfrydig a'r awydd i gymryd rhan mewn trafodaeth aeddfed ynglŷn ag amrywiaeth o bynciau. Dylai myfyrwyr fod yn berchen ar sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i weithio ac i wneud gwaith ymchwil ar eu pen eu hunain. Bydd Seicoleg yn aml yn gwneud defnydd o ystadegau mewn gwaith ymchwil, felly mae gradd C Mathemateg yn ddymunol. Byddai'n syniad da gwneud ychydig o ymchwil er mwyn darganfod beth yn union yw Seicoleg, gellir ymweld â Gwefan Seicoleg Prydain ar www.bps.org.uk.

Gwybodaeth Ychwanegol
Yn ogystal â Seicoleg Glinigol, mae'r rhagolygon yn dda ar gyfer gwaith i raddedigion Seicoleg mewn meysydd eraill, ar gyfer y rhai y bydd eu hyfforddiant wedi rhoi gwybodaeth arbenigol iddynt. Ymchwil farchnata, gwaith cymdeithasol, nyrsio, hysbysebu, gwerthiant, rheoli personél a chyngor gyrfaol – dyma rai o'r meysydd lle byddai gradd mewn seicoleg yn sylfaen dda.

Bydd gan raddedigion mewn seicoleg wybodaeth ynglŷn ag asesu personoliaeth, deallusrwydd ac agweddau, technegau cyfweld, cynllunio a dadansoddi holiaduron, datblygiad plentyn a dulliau dysgu ac addysgu.

Mae gradd Seicoleg hefyd yn sylfaen da ar gyfer amryw o swyddi ble bydd gweithwyr yn derbyn hyfforddiant ychwanegol (yr Heddlu, y Lluoedd Arfog, hysbysebu a darlledu, er enghraifft) neu ble byddant yn cael cymwysterau proffesiynol pellach drwy weithio (cyfrifyddiaeth, bancio, rheolaeth, personél, ymchwil farchnata). Gall graddedigion seicoleg weithio mewn safle rhyngddisgyblaethol gyda biolegwyr, peirianwyr, ffisiolegwyr a ffisegwyr.

Mae Seicoleg yn cyd-fynd yn dda ag amryw o bynciau, megis Gwyddorau eraill, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Busnes.

Gwybodaeth Gyffredinol

Dewiswyd y cwrs hwn yn benodol o achos y defnydd o becynnau cymhwyso ac am fod iddo ganran uchel iawn o asesiadau ymarferol.

Mae'r cwrs yn ddilyniant naturiol i'r gwaith a wnaed ym mlwyddyn 10 ac 11. Mae'r cwrs hefyd yn ceisio datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddefnydd a rôl TGCh mewn sefyllfaoedd ac amgylcheddau amrywiol a phwysigrwydd cynyddol TGCh yn y byd cyfoes. Gellir gwneud y cwrs hwn ochr yn ochr â Chyfrifiaduron.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Asesir 60% o'r cwrs ym Mlwyddyn 12 a 40% ym Mlwyddyn 13 gan ddefnyddio tasgau ymarferol sydd wedi eu seilio ar feddalwedd penodol. Gellir cael mwy o wybodaeth am yr asesiadau uchod ond i chi ofyn amdano.

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U.

UG

IT1 (30%) - 2¼ awr – Papur ysgrifenedig o ddwy adran, ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb. Bydd rhaid i ymgeiswyr baratoi taenlen. Gellir mynd â chopi caled o'r daenlen i mewn i'r arholiad a'i ddefnyddio i ateb cwestiynau yn Adran B. Cyflwynir y daenlen gyda'r papur arholiad gorffenedig a chaiff ei farcio'n allanol gan CBAC.

IT2 (20%) - Asesir yn fewnol - bydd ymgeiswyr yn ymgymryd â Chyhoeddi Pen Desg a thasgau aml-gyfryngol.

U

IT3 (30%) - 2½ awr – Papur ysgrifenedig o ddwy adran, ar ffurf papur arholiad a llyfryn ateb ar wahân. Bydd ymgeiswyr yn ateb pob cwestiwn yn Adran A ac un cwestiwn allan o ddau yn Adran B. Asesir ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig mewn dau gwestiwn. CBAC fydd yn gyfrifol am farcio hyn yn allanol.

IT4 – (20%) – Asesir yn fewnol – Bydd ymgeiswyr yn dadansoddi, cynllunio, gweithredu, profi a gwerthuso datrysiad i broblem o'u dewis sy'n gofyn am ddefnyddio data-basau perthynol.

Sgiliau Allweddol

Mae llwyddo ar lefel UG yn ateb gofynion Sgil Allweddol TG ar Lefel 3. Mae elfennau o'r cwrs hefyd yn cyfrannu at y Sgiliau Allweddol eraill. Mae manylion pellach ar gael.

Gofynion Mynediad

Dydy Diploma mewn Cymwysiadau Digidol ddim yn hanfodol ond byddai'n ddefnyddiol. Dylai disgyblion sydd heb astudio'r pwnc fel pwnc TGAU gael gwybodaeth dda o TGCh a'r defnydd o becynnau meddalwedd a dylent fod yn barod i ddal i fyny gyda pheth o'r gwaith a gollwyd os bydd angen.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs yn un amhrisiadwy ar gyfer unrhyw un sy'n debygol o ddefnyddio TGCh ar ôl gadael yr ysgol. Bydd astudio'r defnydd o feddalwedd yn unig yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau uchel sy'n hanfodol er mwyn deall a defnyddio TGCh mewn Addysg Uwch neu yn y gwaith. Anelir y cwrs hwn at ddefnyddwyr TGCh yn hytrach nag at ddisgyblion sydd am barhau i astudio TGCh/Cyfrifiadureg ar lefel uwch ar ôl gadael yr ysgol.

Barn Disgybl – Mae'r cwrs wedi newid erbyn hyn ond dywedodd disgyblion a astudiodd y cwrs blaenorol fod y cwrs wedi gwella eu gwybodaeth o ddefnydd TGCh ac roedd wedi gwella eu sgiliau o ran defnyddio pecynnau meddalwedd amrywiol.

Y Drwydded Ewropeaidd Mewn Defnyddio Cyfrifiaduron (ECDL)
Mr R Owen

Dyffryn Taf

Gwybodaeth Gyffredinol
Cymhwyster yw'r ECDL a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sy'n galluogi pobl i ddangos eu sgiliau cyfrifiadurol. Y cymhwyster hwn yw'r cymhwyster ar gyfer defnyddwyr TG sy'n tyfu cyflymaf mewn mwy na 125 o wledydd.

Cynlluniwyd ECDL yn arbennig ar gyfer y rheini sydd am ennill cymhwyster meincnod mewn cyfrifiaduraeth er mwyn datblygu eu sgiliau TG a gwella eu gobeithion am yrfa. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol o TG nac unrhyw sgiliau cyfrifiadurol er mwyn astudio.
Nid yw hwn yn gwrs Lefel A. Ni fydd yn ymddangos yn y Blociau Dewis.

Strwythur y Cwrs ac Asesu
Cynlluniwyd y maes llafur i ddelio â chysyniadau allweddol cyfrifiaduraeth, ei defnydd ymarferol a'i defnydd yn y gweithle ac mewn cymdeithas. Fe'i rhennir yn saith modiwl a rhaid llwyddo ym mhob un ohonynt cyn ennill tystysgrif ECDL.

Mor gynted ag y bo ymgeisydd yn cael ei gofrestru mewn Canolfan Brawf achrededig, bydd yn derbyn llyfr log yn rhestru'r 7 modiwl. Gellir sefyll y saith modiwl mewn unrhyw drefn a thros unrhyw gyfnod o amser (hyd at dair blynedd) - hyd yn oed y cyfan ar unwaith - sy'n cynnig yr hyblygrwydd eithaf. Wedi llwyddo ym mhob un o'r 7 modiwl, cyfnewidir y llyfr log am dystysgrif a cherdyn credyd.

Y saith modiwl yn yr ECDL yw:

Cysyniadau sylfaenol TG
Defnyddio'r cyfrifiadur a rheoli ffeiliau
Prosesu geiriau
Taenlenni
Bas data
Cyflwyniad
Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd pob myfyriwr yn derbyn CD o ansawdd uchel yn cynnwys yr holl ddeunydd hyfforddi a deunydd prawf enghreifftiol. Bydd y saith prawf yn cael eu sefyll yn yr ysgol, dan arolygaeth gan ddefnyddio profion awtomatig ar-lein.

Sgiliau Allweddol
Cefnogir datblygiad sgiliau allweddol.

Gofynion Mynediad
Gallu i ddysgu yn annibynnol

Gwybodaeth Ychwanegol
Gwella eich gallu mewn TG a'ch sgiliau cyfrifiadurol.
Gwella eich cynhyrchiant yn yr ysgol a gartref.
Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol o TG na sgiliau cyfrifiadurol.
Cewch gymhwyster a gydnabyddir ledled y byd.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Diploma Cyntaf mewn Amaethyddiaeth BTEC yn rhoi sylfaen eang i chi yn y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol sy'n angenrheidiol wrth ystyried gwaith cyflogedig yn y sectorau Amaethyddiaeth a sectorau cysylltiedig, ac yn llwybr tuag at hyfforddiant ac Addysg Bellach.

Bydd y cymhwyster hwn yn ddefnyddiol i'r rhai sydd eisoes wedi'u cyflogi mewn Amaethyddiaeth ymarferol a'r diwydiannau cysylltiedig ac sydd am ehangu eu gwybodaeth a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg, gan ganiatáu i chi ganolbwyntio ar eich anghenion a'ch diddordebau ac archwilio meysydd newydd. Mae'n cynnwys tair uned graidd a dewis o dair uned arbenigol, gan roi 360 o oriau dysgu dan arweiniad. Gallai meysydd y byddech chi o bosib am ganolbwyntio arnynt gynnwys sgiliau cefn gwlad ymarferol, cyflwyniad i sut i Ofalu am Anifeiliaid a Phlanhigion neu Gynhyrchu Cnydau Amaethyddol.

Sgiliau Allweddol

Bydd myfyrwyr yn defnyddio Sgiliau Allweddol megis Datrys Problemau mewn sefyllfa ymarferol.

Gofynion Mynediad

Dylai fod gennych y diddordeb a'r potensial i lwyddo i ennill y cymhwyster ac yn ddelfrydol dylech chi allu dangos bod gennych safon llythrennedd, rhifedd ac addysg gyffredinol sy'n cyfateb i bedwar TGAU gradd D-G.

Gwybodaeth Ychwanegol

Wedi cwblhau Diploma Cyntaf BTEC mewn Amaethyddiaeth, gall ymgeiswyr llwyddiannus ddefnyddio eu cymhwyster fel cam tuag at gael gwaith cyflogedig mewn ystod o swyddi, er enghraifft: Gweithiwr Fferm (cnydau neu dda byw) neu Ysgrifennydd Fferm.

Gwybodaeth Gyffredinol

Bydd y cymhwyster hwn yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymhwysedd sy'n angenrheidiol wrth ystyried gwaith cyflogedig yn y sector ymarfer corff a ffitrwydd neu berfformiad chwaraeon. Bydd yn rhoi sylfaen i chi yn y sgiliau hanfodol a'r hanfodion bras sy'n hanfodol i'r maes astudio hwn.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio i'ch galluogi i astudio pynciau eraill ochr yn ochr â'ch Diploma Cyntaf BTEC. Mae dwy uned graidd ynghyd â dewis o bedair uned arbenigol yn gwneud cyfanswm o 360 o oriau dysgu dan arweiniad. Yn dibynnu ar y rhaglen astudio sydd ar gael i chi yn lleol, mae strwythur y cwrs yn caniatáu i chi ddatblygu eich diddordebau a chael sylfaen eang ac yn eich cyflwyno i feysydd newydd, megis gweithredu cyfleusterau chwaraeon a hamdden, cynllunio ac arwain gweithgareddau chwaraeon, sgiliau technegol ac ymwybyddiaeth ymarferol neu seicoleg ar gyfer perfformiad chwaraeon.

Sgiliau Allweddol

Bydd myfyrwyr yn defnyddio sgiliau allweddol megis Datrys Problemau mewn sefyllfa ymarferol.

Gofynion Mynediad

Dylai fod gennych y diddordeb a'r potensial i lwyddo i ennill y cymhwyster ac yn ddelfrydol dylech chi allu dangos bod gennych safon llythrennedd, rhifedd ac addysg gyffredinol sy'n cyfateb i bedwar TGAU gradd D-G.

Gwybodaeth Ychwanegol

Wedi cwblhau Diploma Cyntaf BTEC mewn Lletygarwch, byddai ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu ennill cyflogaeth gychwynnol, ar lefel iau, mewn meysydd megis hyfforddiant iechyd a ffitrwydd, datblygu chwaraeon neu hyfforddi chwaraeon mewn chwaraeon proffesiynol.

.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae'r diwydiant lletygarwch yn cynnwys ystod eang o sefydliadau, pob un ohonynt yn elwa o weithwyr sydd â hyfforddiant a chymwysterau priodol. Mae Diploma Cenedlaethol BTEC felly wedi'i gynllunio er mwyn eich arfogi â dealltwriaeth, sgiliau a gwybodaeth hanfodol yn elfennau allweddol y diwydiant lletygarwch ac arlwyo, i'ch paratoi ar gyfer cyflogaeth neu er mwyn symud ymlaen i astudiaethau pellach.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Mae'r cwrs yn cynnwys unedau craidd ac unedau arbenigol sy'n darparu cyfanswm o 6 uned a 360 o oriau dysgu dan arweiniad. Yn dibynnu ar y rhaglen astudio sydd ar gael i chi yn lleol, mae strwythur y cwrs yn caniatáu i chi ddatblygu eich diddordebau presennol ac ar yr un pryd gael sylfaen eang ac mae'n eich cyflwyno i feysydd newydd megis gweini bwyd a diod, llety a'r swyddfa flaen neu gynllunio a rhedeg digwyddiad lletygarwch.

Sgiliau Allweddol

Bydd myfyrwyr yn cael mynediad i sgiliau allweddol megis Datrys Problemau mewn lleoliad ymarferol.

Gofynion Mynediad

Dylech fod â'r diddordeb a'r potensial i lwyddo i gyflawni'r cymhwyster ac yn ddelfrydol, dylech allu dangos bod eich safon llythrennedd, rhifedd a gwybodaeth gyffredinol yn cyfateb i bedair gradd A*-G TGAU

Gwybodaeth Ychwanegol

Wedi cwblhau Diploma Cyfrannol Cenedlaethol Lefel 3 BTEC mewn Lletygarwch, byddai ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu ennill cyflogaeth gychwynnol, ar lefel iau, mewn swyddi megis Derbynnydd Gwesty, Person Bar, Cynorthwyydd Gwasanaeth Bwyd neu barhau â'u haddysg ar lefel uwch mewn prifysgol neu goleg.

Gwybodaeth Gyffredinol

Nod cymwysterau BTEC Cenedlaethol Edexcel mewn Technoleg Cerdd yw darparu sylfaen eang ar gyfer hyfforddiant pellach, addysg bellach a chyflogaeth o fewn y sector cerdd. Bydd y cymhwyster yn datblygu galluoedd dysgwyr trwy gyfrwng y wybodaeth a'r sgiliau a enillir mewn gwahanol rannau o'r rhaglen.

Ym Mlwyddyn 12, bydd myfyrwyr yn cwblhau Tystysgrif Lefel 3 BTEC ac yn dilyn hynny, ym Mlwyddyn 13, byddant yn cwblhau Diploma Cyfrannol Lefel 3 BTEC. Mae'r cymwysterau hyn yn cyfateb yn fras i Lefel UG TAG a Lefel A TAG.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Ym Mlwyddyn 12, mae **Tystysgrif** Lefel 3 yn cynnwys un uned orfodol "Technegau Cynhyrchu Cerddoriaeth" ynghyd â dwy uned ddewisol sy'n cynnwys dilyniannu (sequencing) a recordio. Asesir trwy gwblhau aseiniadau ymarferol.

Ym Mlwyddyn 13, ar gyfer y **Diploma Cyfrannol,** mae'n ofynnol i fyfyrwyr ddewis arbenigo naill ai mewn dilyniannu neu mewn creu sain.

Gofynion Mynediad

Dylech fod â'r diddordeb a'r potensial i lwyddo i gyflawni'r cymhwyster ac yn ddelfrydol, dylech allu dangos bod eich safon llythrennedd, rhifedd a gwybodaeth gyffredinol yn cyfateb i bedair gradd A*-G TGAU

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Cymwysterau Cenedlaethol BTEC yn gymwysterau QCF Lefel 3 sydd wedi'u cynllunio i ddarparu cymwysterau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith mewn ystod o sectorau galwedigaethol. Maent yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr i'w paratoi ar gyfer mynediad i Addysg Uwch neu gyflogaeth yn y diwydiant Cerdd.

Gwybodaeth Gyffredinol

Gyda'r cymwysterau Therapi Harddwch hyn, fe gewch y sgiliau angenrheidiol i fod yn Therapydd Harddwch, Artist Coluro neu Dechnegydd Ewinedd llwyddiannus mewn salon neu sba. Byddwch yn datblygu sgiliau hanfodol fel gwasanaeth cwsmeriaid, iechyd a diogelwch a sut i weithio'n dda yn amgylchedd y salon. Mae cymwysterau byr ar gael hefyd sydd yn ymwneud ag un sgil arbennig - pethau fel tyllu clustiau neu osod ewinedd artiffisial.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

Gallwch ddewis o ystod gyfan o wahanol gymwysterau, o Ddiplomâu trylwyr i Ddyfarniadau byr sy'n canolbwyntio ar un peth. Y prif opsiynau ar gyfer y cymwysterau hirach yw:

- **Therapi Harddwch** - cymwysterau cyffredinol yw'r rhain s'n ymwneud â gweithio yn y diwydiant harddwch ac sy'n gadael i chi ddewis a dethol o blith llawer o opsiynau - o goluro i dylino. Maen nhw'n ddelfrydol os nad ydych yn siŵr ym mha beth rydych chi am arbenigo neu os oes angen trosolwg eang arnoch, efallai er mwyn rheoli eich salon eich hun.
- **Gwallt a Cholur ar gyfer y Cyfryngau** – os hoffech chi steilio modelau ar gyfer sesiynau ffotograffiaeth neu efallai weithio fel artist coluro ar gyfer ffilmiau neu'r teledu, mae'r cymwysterau hyn yn ffordd ddelfrydol o adeiladu eich sgiliau. Byddwch yn cael cyfle i fod yn greadigol gyda gwallt a cholur a gallwch hyd yn oed ddewis opsiynau mewn ffotograffiaeth stiwdio.
- **Ewinedd Ffug** – mae'r cymwysterau hyn yn rhoi'r sgiliau i chi i bampro eich cleientiaid mewn salon ewinedd. Byddwch yn gosod ewinedd artiffisial a chelf ewinedd, ac yn dysgu hyrwyddo eich gwasanaethau a rhoi profiad arbennig i gwsmeriaid.
- **Therapi Corff a Sba** – os ydych chi eisiau gyrfa mewn sba, dyma'r cymwysterau i chi. Byddwch o bosib yn ymwneud â thylino, electrotherapi, triniaethau wyneb a thriniaethau lliw haul.
- **Ymgynghoriaeth Harddwch** – mae'r cymwysterau hyn yn ymwneud â'r sgiliau i gynghori cwsmeriaid ynglŷn â harddwch, yn ogystal â defnyddio colur, siapio aeliau a thechnegau harddwch ymarferol eraill. Maent yn baratoad gwych ar gyfer gyrfa mewn salon neu ar gownter colur.

Mae aseiniadau yn cael eu gosod yn allanol ac yn cael eu marcio a'u graddio yn fewnol. Byddwch yn cael eich asesu gan eich darparwr hyfforddiant gan ddefnyddio aseiniadau, tasg ymarferol, arholiadau neu brofion ar-lein. Mae meini prawf marcio a graddio manwl ar gael yn adran Meini Prawf Marcio a Graddio pob aseiniad.

Cyfleoedd Sgiliau Allweddol

Bydd myfyrwyr yn datblygu ac yn defnyddio sgiliau allweddol ehangach megis Cydweithio ag Eraill.

Gofynion Mynediad

Portffolio o arholiadau TGAU.

Mae myfyrwyr sy'n ennill y cymhwyster hwn yn gallu symud ymlaen i NVQ Lefel 3.

Gwybodaeth Gyffredinol

Eisiau lansio'ch gyrfa fel Person Trin Gwallt? Os ydych am ddysgu'r pethau sylfaenol am dorri gwallt neu ennill sgiliau arbenigol er mwyn dringo'r ysgol, mae'r cymwysterau hyn ar eich cyfer chi. Gallwch ddysgu popeth o siampwio a chyflyru, steilio a thrin gwallt priodferch ar ddiwrnod ei phriodas. Os mai megis dechrau yr ydych ar eich gyrfa trin gwallt gallwch gymryd Tystysgrif neu Ddiploma sy'n cwmpasu ystod eang o sgiliau. Os ydych am ddysgu techneg newydd yn unig, rydym yn cynnig ystod o Ddyfarniadau arbenigol byr.

Diploma yw'r un i chi os ydych o ddifri' ynglŷn â gyrfa fel person trin gwallt.

Ar lefel 2 mae opsiynau ar gyfer dysgwyr ifanc ac oedolion. Ar Lefelau 3 a 4 mae'r cymwysterau yn addas ar gyfer merched a dynion torri gwallt mwy profiadol. Does dim rhaid i chi fod â lleoliad gwaith ar y pryd i gymryd y cymwysterau hyn, ac mae opsiynau ar gael ar gyfer pobl heb brofiad o gwbl.

Strwythur y Cwrs ac Asesu

- Os byddwch yn cymryd Diploma, byddwch yn cwmpasu manylion y diwydiant torri gwallt yn ogystal â'r sgiliau i lwyddo yn eich maes – er enghraifft, torri gwallt merched, barbro neu liwio. Bydd hyn yn cynnwys y sgiliau angenrheidiol ar gyfer arbenigedd neu dechneg arbennig megis torri gwallt, steilio a thrin gwallt, pyrmio gwallt, ymlacio gwallt Affricanaidd a gweithio gydag estyniadau gwallt.
- Rydych yn dysgu gyda'ch darparwr hyfforddiant trwy gyfrwng sesiynau ymarferol, trafodaethau grŵp neu aseiniadau. Byddwch yn cael mynediad i amgylchedd trin gwallt realistig lle byddwch yn ymarfer ac yn arddangos eich sgiliau.
- Byddwch yn cael eich asesu gan eich darparwr hyfforddiant gan ddefnyddio aseiniadau, tasgau trin gwallt ymarferol a phrofion ar-lein.

Cyfleoedd Sgiliau Allweddol

Bydd myfyrwyr yn datblygu ac yn defnyddio sgiliau allweddol ehangach megis Cydweithio ag Eraill.

Gofynion Mynediad

Portffolio o arholiadau TGAU.

Mae myfyrwyr sy'n ennill y cymhwyster hwn yn gallu symud ymlaen i NVQ Lefel 3.

.

Dyffryn Taf
Heol y Gogledd
Hendy-gwyn
SA34 0BD

Ffôn: 01994 242100
Ffacs: 01994 240929
gps@dyffryntaf.org.uk
www.dyffryntaf.org.uk